



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner


Codi'r Bar



Adroddiad Sicrwydd 2022-23

Cyhoeddwyd yn unol ag Adran 4 Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011

Hydref 2023



Rhagair

Dyma'r adroddiad cyntaf i mi ei gyhoeddi fel Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi barn ar gydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau iaith. Dechreuais yn y swydd ym mis Ionawr 2023, ac yn fy misoedd cyntaf fel Comisiynydd rwyf wedi cael y fraint o gwrdd â nifer o bobl ar draws Cymru sydd wedi trafod gyda mi pa mor bwysig ydy hi iddyn nhw fyw yn y Gymraeg.

Er mwyn i bobl allu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol bob dydd, mae rhaid i sefydliadau cyhoeddus, a sefydliadau eraill yng Nghymru, ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau, gweithredu'n fewnol a chynllunio polisi sy'n cefnogi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'n bryder bod y Gymraeg yn parhau i gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn llawer gormod o amgylchiadau. Mae hefyd yn annerbyniol bod 18% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd y flwyddyn hon wedi cael profiad o rywun arall yn eu hatal rhag siarad Cymraeg. Mae'r erydiad cyson o brofiadau iaith siaradwyr o ddydd i ddydd ac ymagwedd negyddol tuag at ddefnyddio'r iaith yn rhwym o effeithio ar hyder siaradwyr Cymraeg ac yn siŵr o gael effaith ar lefelau defnydd o'r Gymraeg. Hoffwn weld bob sefydliad yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod egwyddorion Mesur y Gymraeg yn llawn weithredol yn eu sefydliadau a bod sefydliadau hefyd yn gosod arweiniad sy'n croesawu defnydd o'r Gymraeg.

Rwy'n awyddus, yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd y Gymraeg, i weithio yn agos gyda sefydliadau i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn ymwybodol bod llawer o bobl yn derbyn addysg Gymraeg, ond nad ydynt yn defnyddio'r iaith ar ôl gadael yr ysgol. Mae'r gweithle'n lle allweddol i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ac i roi cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r iaith yn broffesiynol ac yn anffurfiol. Mae felly'n allweddol codi trafodaeth ynghylch y potensial sydd i yrru newid yng Nghymru drwy gyfrwng polisiau ar ddefnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol sefydliadau cyhoeddus.

Y neges gyffredinol gennyf i sefydliadau yw bod angen codi'r bar. Mae dyletswyddau sydd wedi eu gosod o dan y safonau yn glir ac nid yw cyfradd cydymffurfio 'gweddol dda' yn ddigon i fod yn sail i newid arferion defnydd. Rwyf am ddefnyddio'r holl bwerau sydd gennyf fel Comisiynydd i greu'r amodau cywir i newid arferion defnyddio'r iaith.

Efa Gruffudd Jones.



Efa Gruffudd Jones

Comisiynydd y Gymraeg

Prif ganfyddiadau'r adroddiad

Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

Mae gwasanaethau ysgrifenedig ar gael yn helaeth ac maent yn gwella. Nid oes cynnydd mewn gwasanaethau llafar ac mae'r ddarpariaeth islaw'r hyn a ddylai fod. Er hyn, mae pobl yn dweud wrth y Comisiynydd mai gwasanaethau llafar maent eu heisiau fwyaf.

Cyflenwi Gwasanaethau

Mae cydymffurfiaeth wedi gwella, yn arbennig os yw sefydliadau wedi bod o dan ddyletswyddau safonau am gyfnod o amser. Lle roedd nifer o ganlyniadau arolygon y Comisiynydd yn dangos bod gan ddefnyddwyr un siawns mewn tair o allu defnyddio'r Gymraeg, mae'r siawns wedi codi mewn llawer o sefyllfaoedd i fod yn ddwy siawns mewn tair. Mae hyn yn dangos bod sectorau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r drefn safonau. Yn amlwg, mae angen codi'r bar yn uwch eto oherwydd dylai fod gwarant o wasanaeth Cymraeg bob amser.

Yn achos y sector iechyd, sydd wedi dod o dan ddyletswydd safonau'r Gymraeg yn fwy diweddar, nid yw data'r cyfnod monitro yn dangos yr un cynnydd. Rhaid i'r sector beidio â gwneud ymdrechion gwangalon, ond mynd ati'n egniol fel sydd eisoes wedi digwydd mewn sectorau eraill i wneud i ffwrdd â'r ansicrwydd sydd i ddefnyddwyr y Gymraeg.

Llais y defnyddiwr

Nid yw sefydliadau'n cyflenwi gwasanaethau llafar fel y dylent. Rhaid trefnu bod staff yn y manau cywir i allu diwallu gofynion y safonau. Mewn ymateb i'r hyn mae'r cyhoedd yn ei ddweud a'r dystiolaeth fonitro, bydd sicrhau bod sefydliadau'n cwrdd â'u dyletswyddau llafar yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd.

Mae'n destun pryder gwirioneddol bod achosion lle mae rhywrai yn gofyn i ddefnyddwyr beidio â defnyddio'r Gymraeg i'w gweld fel pe baent yn lled gyffredin, nid yn achosion eithriadol, sydd prin neu byth yn digwydd yn ein cymdeithas. Ymatebodd 18% o'r sampl a holwyd eu bod wedi cael profiad o rywun yn eu hatal rhag siarad Cymraeg. Roedd y ganran yn uwch ar gyfer pobl sydd rhwng 16 a 34 mlwydd oed, gyda 29% o'r sampl yn nodi eu bod wedi cael profiad o gael eu hatal rhag siarad Cymraeg. Roedd y ganran yn uwch hefyd os oeddynt yn ddynion (25%), yn dod o ardaloedd daearyddol dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg (20%) neu yn siaradwr Cymraeg rhugl (22%). Mae'r sefyllfa'n annerbyniol. Bydd y Comisiynydd yn gwneud mwy i ddeall beth sy'n digwydd y tu ôl i'r ystadegau ac i weithio ar draws ein cymdeithas i hyrwyddo'r rhyddid sydd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.

Sefydliadau i hybu defnydd

Mae hybu gwasanaethau Cymraeg yn gofyn am fwy na dim ond eu darparu; mae angen i sefydliadau amlygu gwasanaethau Cymraeg.

Defnydd Gwasanaethau

Mae'r strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi bod Gweinidogion Cymru *'am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, a bod pobl yn cymryd camau rhagweithiol i gynnig cynnyrch a gwasanaethau yn Gymraeg'*. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud corff o safonau sy'n canolbwyntio ar hybu defnyddio'r Gymraeg yng nghyd-destun gwasanaethau er mwyn i sefydliadau sydd o dan ddyletswyddau safonau gyfrannu at y nod polisi hwn. Mae angen i sefydliadau fynd i'r afael o ddifri â'r cyfrifoldeb a hyrwyddo gwasanaethau. Does dim arwydd bod hynny'n digwydd mewn ffordd gyfannol ar hyn o bryd.

Defnyddio'r Gymraeg wrth y gwaith

Dylai sefydliadau osod nod clir er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu gweinyddiaeth fewnol gan ymchwilio i fodolau polisi sy'n gweddu i'w hamgylchiadau.

Sgiliau a recriwtio

Er mwyn diwallu'r dyletswyddau sydd i gyflenwi gwasanaethau Cymraeg rhaid rhoi mwy o werth ar y Gymraeg fel sgil a phenodi mwy o siaradwyr Cymraeg.

Recriwtio

Tra'n cydnabod bod anawsterau cyffredinol wrth recriwtio ar hyn o bryd, nid yw problemau cyffredinol yn sail i ymylu dyletswyddau iaith ond, yn hytrach, mae'n fwy o reswm i weithio'n galed er mwyn ymateb i'r heriau recriwtio sy'n bodoli.

Mae angen gwell trefniadau ar gyfer recriwtio a dethol gweithlu dwyieithog sgilgar a medrus. Gall arweinyddion Adnoddau Dynol gynorthwyo drwy sefydlu strategaethau cynllunio gweithlu dwyieithog.

1. Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

Mae gwasanaethau ysgrifenedig ar gael yn helaeth ac maent yn gwella. Nid oes cynnydd mewn gwasanaethau llafar ac mae'r ddarpariaeth islaw'r hyn a ddylai fod. Er hyn, mae pobl yn dweud wrth y Comisiynydd mai gwasanaethau llafar maent eu heisiau fwyaf.


- 1.1** Amcan gwaith rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg yw sicrhau bod sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn cynnal lefelau cydymffurfiaeth da gyda'r dyletswyddau hynny. A phan nad yw sefydliadau yn cydymffurfio'n effeithiol — i ddefnyddio pwerau i'w gorfodi i'w cyflawni.
- 1.2** Bwriad Comisiynydd y Gymraeg wrth reoleiddio'n effeithiol yw rhoi sicrwydd a hyder i ddefnyddwyr y Gymraeg bod cyrff cyhoeddus yn darparu gwasanaethau o safon sy'n gyson ar draws Cymru ac ar draws sectorau cyhoeddus.
- 1.3** Mae canfyddiadau ein harolygon siopwr cudd eleni yn rhoi darlun cymysg o gydymffurfiaeth sefydliadau a cheir diffyg cysondeb amlwg rhwng sectorau a rhwng mathau o wasanaethau.
- 1.4** Gan amlaf mae gwasanaethau sy'n hawdd eu cynllunio ymlaen llaw neu rai sy'n dibynnu ar gyfieithu neu ar dechnoleg yn cydymffurfio yn well na rhai llafar. Os oes dibyniaeth ar sgiliau iaith penodol gan staff i ymateb i'r cyhoedd yn y fan a'r lle, megis drwy wasanaethau ffôn, mae lefelau cydymffurfio'n is.
- 1.5** Mae'r cyswllt rhwng cyflogi staff sydd â sgiliau Cymraeg yn y manau cywir i ddiwallu gofynion gwasanaeth yn gwbl amlwg. Dylai cymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth fod yn flaenoriaeth i gyrff cyhoeddus. Rhaid recriwtio a datblygu sgiliau fel modd o fynd i'r afael â diffygion sydd heb eu datrys hyd yma.
- 1.6** Mae angen i sefydliadau sy'n methu â chyflenwi gwasanaethau Cymraeg syml flaenoriaethu'r angen am sgiliau Cymraeg o fewn eu gweithle fel mater strategol bwysig sy'n eu cefnogi i gydymffurfio â'r gyfraith o ran darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Nid yw ystyried y Gymraeg fel sgil ymylol i fusnes y sefydliad yn gynaliadwy. Mae angen i sefydliadau gael strategaeth recriwtio sy'n ystyried y Gymraeg fel sgil craidd i rediad a gweithrediad y corff.

Canfyddiadau arolygon gwirio gwasanaethau

Gwasanaethau ffôn

- 1.7** Samplwyd galwadau at brif linellau ffôn sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg dros y flwyddyn ariannol a chofnodi cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau penodol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. (Ceir rhestr o'r cyrff a fu'n rhan o waith monitro'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn hon yn Atodiad 1).
- 1.8** Roedd cynnydd yn y cyfartaledd cydymffurfiaeth ar gyfer sefydliadau'r sampl i gyd o'i gymharu â 2021 i 2022 wrth fesur a oedd sefydliadau'n delio â galwadau yn gyfan gwbl yn Gymraeg (o 56.06% i 61.33%).
- 1.9** Fodd bynnag, nid yw'r perfformiad yn gyson. Roedd sefydliadau sy'n ddarostyngedig i reoliadau rhif 7 (sef byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r gwasanaeth iechyd) yn perfformio'n gyson isel, gyda dim ond 15% o alwadau ffôn yn derbyn ymateb yn llawn yn Gymraeg. Canlyniad sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd — (ac yn effeithio ar y cyfartaledd).

Delio â'r alwad yn llawn yn Gymraeg. Cyrff set rheoliadau:¹



- 1.10** Mae'r perfformiad o 15% yn y sector iechyd hefyd yn dangos diffyg sy'n gwaethygu gan ystyried bod y ffigur cyfatebol ar gyfer y flwyddyn 2021-2022 yn 30%.


1. Rh rhif 1 – Cyrff sy'n ddarostyngedig i Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
Rh rhif 2 – Cyrff sy'n ddarostyngedig i Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016
Rh rhif 4 – Cyrff sy'n ddarostyngedig i Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016
Rh rhif 5 – Cyrff sy'n ddarostyngedig i Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016
Rh rhif 6 – Cyrff sy'n ddarostyngedig i Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017
Rh rhif 7 – Cyrff sy'n ddarostyngedig i Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018
Ceir rhestr llawn o'r cyrff a fu'n destun y gwaith monitro yn Atodlen 1.

1.11 Fodd bynnag, mae gwell newyddion pan ystyrir newidiadau ym mherfformiad cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau rhif 6 (sef Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach). Mae eu gallu i ddelio â galwadau'n llawn yn Gymraeg wedi cynyddu o 28% i 68% dros y flwyddyn, a 97% o'r galwadau profi wedi derbyn cyfarchiad yn y Gymraeg (50% oedd cyfradd cydymffurfiaeth y llynedd). Serch hynny nid yw cydymffurfiaeth o 68% yn gwarantu profiad cyfrwng Gymraeg i ddefnyddwyr.

1.12 Yn gyffredinol, mae lefel uchel o gydymffurfiaeth gyda'r safon sy'n gosod dyletswydd i gyfarch person yn Gymraeg wrth dderbyn galwadau, a lefel cydymffurfiaeth ar gyfartaledd dros 95%. Mae nifer o sefydliadau bellach yn defnyddio technoleg megis peiriannau ateb i roi sicrwydd bod galwyr yn cael cyfarchiad Cymraeg ac yn cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol. Mae hyn yn esiampl o fuddsoddiad mewn technoleg addas sy'n gallu cefnogi sefydliadau i gydymffurfio ac i sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.

Tuedd dros amser – gwasanaethau ffôn:

Gwasanaethau ffôn²



1.13 Fel mae'r graff uchod yn dangos, mae cynnydd wedi bod yn lefelau cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r safonau sy'n gofyn eu bod yn delio â galwadau ffôn yn Gymraeg a safonau darparu gwasanaethau awtomatig.

1.14 Fodd bynnag, rhaid nodi bod unrhyw gynnydd yn fach ac araf deg. Mae lefel perfformiad delio â galwadau yn llawn yn y Gymraeg o gwmpas canran rhwng 50-60% ers rhai blynyddoedd. Nid yw hyn yn gydymffurfiaeth sy'n cyflawni bwriad Mesur y Gymraeg ac yn ymarferol nid yw'n debygol o arwain at gynyddu defnydd o'r iaith.

2. Noder – nid oedd data ar gael ar gyfer 2020-2021 ac er mwyn dangos y cynnydd dros amser, nid ydym wedi gadael blwch ar gyfer data'r flwyddyn honno.

- 1.15** Mae hyn yn broblematig wrth ystyried yr angen i roi sicrwydd i ddefnyddwyr y bydd modd i sefydliadau ddelio â'u galwadau yn Gymraeg bob tro. Dim ond ychydig dros hanner galwadau defnyddwyr sy'n cael eu hateb yn Gymraeg. Mae diffyg sicrwydd yn y maes hwn yn rhywbeth i fynd i'r afael ag ef ac mae'r Comisiynydd yn barod wedi bod yn gorfodi cyrff i sicrhau newid drwy gynnal ymchwiliadau a gosod camau gorfodi.

Gwaith ymchwilio a gorfodi y Comisiynydd yn atal methiannau gwasanaethau ffôn

Ar sail cwynion ac amheuon yn codi o waith monitro, penderfynodd y Comisiynydd y byddai yn cynnal ymchwiliad cyffredinol i wasanaethau ffôn Bwrdd Iechyd i ganfod a oedd yn cydymffurfio â'r safonau ffôn ai peidio. Fe wnaeth yr ymchwiliad ganfod sawl enghraifft o'r bwrdd iechyd yn methu â chyfarch galwyr yn Gymraeg yn unol â safon 8, yn methu â rhoi gwybod i alwyr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn yn unol â safon 9 ac yn methu â delio â galwadau yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 10.

Roedd y prif ffactorau a gyfrannodd at y methiannau yn cynnwys camddealltwriaeth sylfaenol y bwrdd iechyd o hyd a lled y safonau ffôn a sut yn union i gydymffurfio gyda nhw. Roedd canllawiau a hyfforddiant y bwrdd iechyd yn wallus o ran y gofynion, a olygai yn ei dro bod staff yn darparu gwasanaethau ffôn yn groes i'r safonau.

Canfuwyd hefyd fod yna broblemau sylfaenol gyda'r ffordd yr oedd y gwasanaethau ar y rhifau ffôn wedi eu sefydlu a oedd yn gwneud y bwrdd iechyd yn agored i fethu â chydymffurfio gyda'r gofynion. Er enghraifft, trefnwyd bod pobl ddi-Gymraeg yn ateb galwadau ffôn 'Cymraeg' a gwelwyd absenoldeb systemau ffôn awtomataidd a fyddai wedi galluogi neu hwyluso cydymffurfiaeth gydag elfennau penodol o'r safonau.

Yn sgil yr ymchwiliad, gofynnwyd i'r Bwrdd baratoi cynllun gweithredu cynhwysfawr i gymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau ffôn ac i fynd i'r afael â'r diffygion penodol a ganfuwyd drwy'r ymchwiliad a fydd yn arwain at newid i'r dyfodol wrth i'r camau gweithredu gael eu cwblhau.


Gwefannau

- 1.16** Dengys arolygon samplo bod lefelau cydymffurfio â gofynion gwefannau'n dda, gyda nifer sylweddol o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn cynnig dros 95% o'u tudalennau gwe yn y Gymraeg.
- 1.17** Fodd bynnag, unwaith eto mae problem i'w gweld o ran sefydliadau iechyd. Dim ond 65% o dudalennau gwe sydd ar gael yn Gymraeg. Rhaid nodi yn ogystal fod y tudalennau sydd ar gael yn Gymraeg gan y sector iechyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn 75% o'r sampl a arolygwyd.
- 1.18** Er bod y rhan helaeth o sefydliadau yn cynnal gwasanaethau gwefan gyda'r tudalennau ar gael yn Gymraeg, mae rhai heriau'n codi mewn meysydd technoleg lled newydd megis cynnig gwasanaeth 'sgwrs' ar wefannau. Mewn rhai achosion, Saesneg yn unig yw'r cynnig i gael sgwrs dros y we, neu ddim ond ar dudalennau Saesneg mae'r sgwrs yn cael ei chynnig.
- 1.19** Wrth i fwy o wasanaethau symud ar lein ac wrth i sefydliadau hybu cyswllt person i berson yn ddigidol, rhaid sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael triniaeth lai ffafriol na'r Saesneg. Wrth i sefydliadau gynllunio a chynnal gwasanaethau digidol, rhaid sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael a'i fod yr un mor hwylus i'w ddefnyddio.
- 1.20** Gwelsom hefyd enghreifftiau lle nad yw chwiliwr ar wefannau yn gweithio mor hwylus yn y Gymraeg a lle roedd defnydd o gyfieithu peiranyddol yn gwneud y Gymraeg yn anoddach i'w deall neu roedd sefydliad wedi gludo testun wedi ei gyfieithu yn flêr a llai hwylus ar y dudalen Gymraeg.
- 1.21** **Tynnwn sylw at y ffaith bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar gyfartaledd mewn 33% o'r tudalennau gwefan a arolygwyd dros y flwyddyn.**
- 1.22** Yn aml, mân bethau yw'r gwallau hyn, ond eto, o'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r gwallau'n bethau sydd yn cyson erydu hyder defnyddwyr y Gymraeg ac yn effeithio ar lefelau sicrwydd. Mae sicrhau bod tudalennau gwe yn cael eu golygu yn ddwyieithog yn gam gweithredol syml gall sefydliad ei roi ar waith er mwyn cynnal gwefan dda.

Cyfryngau cymdeithasol

- 1.23** Mae lefelau cydymffurfiaeth y dyletswyddau defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn gwella, a pherfformiad ar y cyfan yn dda. Roedd arolygon y Comisiynydd yn nodi bod 90% o negeseuon Twitter a Facebook sefydliadau ar gael yn Gymraeg.
- 1.24** Mae cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn argaeledd negeseuon Cymraeg ar gyfryngau cymdeithasol:


Canran o negeseuon Cymraeg ar gyfryngau cymdeithasol³



3. Dim data ar gyfer 2020-2021

Gohebiaeth

Gohebiaeth



- 1.25** Mae'r graff uchod yn dangos bod lefelau cydymffurfiaeth sefydliadau wrth ymateb i ohebiaeth wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd cynnydd yng nghanran yr ymholiadau Cymraeg a gafodd ymateb Cymraeg.
- 1.26** Fel y gwelir uchod, nid yw'r perfformiad o ran ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn wahanol i'r lefelau ymateb i'r ohebiaeth yn Saesneg. Hynny yw, rydych yn debygol o gael ateb i'ch gohebiaeth yn y ddwy iaith mewn tua 2/3 o achosion. Nid defnydd o'r Gymraeg sydd o reidrwydd yn arwain at ddiffyg ymateb.
- 1.27** Pan fo angen gwneud hynny, mae sefydliadau'n ymateb i ohebiaeth Gymraeg mewn dros 80% o achosion. Fodd bynnag, mae lefelau perfformiad ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Gymraeg yn amrywio ar draws sectorau ac yn well yn achos cyrff rheoliadau rhif 1 (Awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru) (93%) nag ydyw i gyrff rheoliadau rhif 7 (Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gwasanaethau y GIG) (62%).

Gwaith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd: Anfon gohebiaeth at nifer o bobl

Cyflwynodd aelod o'r cyhoedd gŵyn ar ôl iddo dderbyn e-bost uniaith Saesneg gan ei awdurdod lleol am drefniadau casglu gwastraff gardd. Pan mae sefydliad yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bobl, mae safonau'r Gymraeg yn creu dyletswydd ar sefydliadau i anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.

Fe wnaeth yr ymchwiliad ddarganfod bod yr e-bost anfonodd yr awdurdod lleol at yr achwynydd yn ohebiaeth oedd yn cael ei hanfon at bawb oedd wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth casglu gwastraff gardd. Roedd yr e-bost yn cael ei anfon ar ddiwedd cyfnod y tanysgrifiad, oedd yn amrywio o un person i'r llall.

Er bod yr e-bost wedi ei anfon at gyfrif personol yr achwynydd, ac er nad oedd pawb yn derbyn yr ohebiaeth, nid oedd cynnwys yr e-bost wedi ei deilwra i'r achwynydd mewn unrhyw ffordd, gyda'r un neges yn union yn cael ei rhoi.

Roedd yr ymchwiliad yn canfod gan ei bod yn ohebiaeth oedd yn mynd at nifer o bobl, yr oedd yr awdurdod lleol wedi methu â chwrdd â'r gofyniad i'w hanfon yn ddwyieithog. Mae'r safonau yn cynnwys gofyniad o'r fath i sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac i hyrwyddo'i defnydd ac mae'n bwysig felly fod trefniadau cadarn gan sefydliadau i anfon gohebiaeth o'r fath at bawb yn ddwyieithog.

Trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 1.28** Un o ddwy brif egwyddor Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r cysyniad yma wedi treiddio drwyddi draw yn safonau'r Gymraeg ac mae'r gofyniad i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wedi ei gynnwys yng ngeiriad nifer o safonau.
- 1.29** Siomedig yw nodi felly bod gwaith arolygu'r Comisiynydd wedi canfod cymaint o achosion lle caiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol ar draws gwasanaethau cyrff cyhoeddus. Caiff hynny ei amlygu yn y tabl cryno islaw:

Cyfradd yr achosion lle cofnodwyd y cafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol wrth ddarparu gwasanaethau:

Gwasanaeth: **Canran ble 'do' bu trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:**

Ffôn	36%
Gohebiaeth	32%
Gwefannau	33%
Cyfryngau cymdeithasol	24%
Deunydd cyhoeddusrwydd	39%
Dogfennau	26%
Ffurflenni	50%
Deunydd recriwtio	50%
Hunaniaeth Gorfforaethol	21%

- 1.30** Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu sefyllfa lle na ddarparwyd gwasanaeth o gwbl, neu achosion o ddefnyddio Cymraeg wallus, gwasanaeth llai hwylus neu llwybrau gwasanaeth yn arwain at ddeunydd Saesneg. Cafwyd hefyd adwaith negyddol mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaeth yn Gymraeg yn ystod profion gan swyddogion y Comisiynydd.
- 1.31** Os bydd y Comisiynydd yn amau nad oes gan sefydliadau drefniadau cadarn i sicrhau nad oes triniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg o'i gymharu â'r Saesneg wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, bydd yn ystyried defnyddio pwerau gorfodi.
- 1.32** Mae dyletswydd ar sefydliadau i gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod eu gwasanaethau o safon yn y ddwy iaith. Mae'n wir i ddweud na fyddai tudalen we, er enghraifft, sydd yn llawn gwallau sillafu a gramadeg yn cael ei derbyn i'w chyhoeddi yn y Saesneg, felly pam gadael i hyn ddigwydd yn y Gymraeg?
- 1.33** Yn ystod y flwyddyn, bu i swyddogion y Comisiynydd ymyrryd dros 800 o weithiau lle roedd yn amlwg nad oedd sefydliadau yn cwrdd â'r lefel ddisgwyliedig o ofynion safonau'r Gymraeg.
- 1.34** Mae gwasanaethau Cymraeg cyrff cyhoeddus yn adlewyrchiad o'u hunaniaeth a disgwyliad safonau'r Gymraeg yw bod ganddynt yr un wyneb cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg: o'r un safon ac yr un mor hwylus ac yn gyfatebol.
- 1.35** Felly, mae cyfle yma i gyrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg gymryd cyfle i adolygu ac ystyried eu gwasanaethau drwy lygaid defnyddwyr sydd eisiau defnyddio eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwaith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd i atal triniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg:

Yn ystod mis Mawrth 2022 fe dderbyniodd y Comisiynydd gwynion ynglŷn â newidiadau i logo Prifysgol De Cymru. Roeddynt yn cwyno bod y Gymraeg bellach yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod y logo yn arddel acronym enw'r Brifysgol fel 'USW' yn unig, gydag enw'r sefydliad yn Gymraeg yn ymddangos o dan yr enw Saesneg, islaw'r acronym. Tynnodd un o'r cwynion sylw at gyfrif Twitter Saesneg y brifysgol hefyd, gan nodi nad oedd disgrifiad y cyfrif yn cynnwys dolen at gyfrif Twitter Cymraeg y Brifysgol.

Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn penderfynu a fu methiant gan y Brifysgol i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Dangosodd ymchwiliad y Comisiynydd fod y brifysgol wedi methu â chydymffurfio gyda'r safonau ar y sail:

- bod y Brifysgol wedi llunio, diwygio a chyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol gan ddefnyddio acronym Saesneg yn unig am gyfnod. Drwy ddefnyddio'r acronym Saesneg yn unig fe wnaeth y brifysgol drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- nad oedd y dystiolaeth yn dangos bod y Brifysgol wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried yr effeithiau y byddai ei phenderfyniad polisi i newid ei hunaniaeth gorfforaethol yn eu cael ar gyfleoedd personau i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- nad oedd y dystiolaeth yn dangos bod y Brifysgol wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi i newid ei hunaniaeth gorfforaethol fel y byddai yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.


Gosodwyd deg cam gorfodi ar y Brifysgol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Roedd y camau o ran y safonau gwasanaeth yn cynnwys gwirio cyfrifon cymdeithasol, addasu unrhyw ganllawiau perthnasol a gwirio bod hunaniaeth gorfforaethol yn cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. O ran y safonau llunio polisi mae angen i'r

Brifysgol sicrhau bod unrhyw benderfyniadau polisi yn cael eu gwneud mewn modd sy'n cydymffurfio gyda safonau 94, 95 a 96. Bydd angen iddynt gynnal adolygiad o'r broses asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, paratoi papur canfyddiadau a rhoi camau mewn lle mewn ymateb i'r canfyddiadau. Yn ogystal, gosodwyd gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg a'i gwneud yn ofynnol i'r brifysgol roi copi o'r adroddiad ar eu gwefan a chynnwys stori newyddion ar eu gwefan. Canlyniad hyn fydd gwell ymwybyddiaeth o'r angen i ystyried effaith penderfyniadau'r Brifysgol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i leddfu unrhyw lai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg.

Effaith treigl amser ar lefelau cydymffurfiaeth


- 1.36** Nodwyd eisoes mai amcan strategol y Comisiynydd wrth reoleiddio yw cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol. Mae canfyddiadau monitro'r Comisiynydd ar y cyfan yn dangos bod y gyfundrefn safonau yn arwain at well triniaeth o'r Gymraeg a dros amser mae cynnydd yn y lefelau cydymffurfiaeth. Wrth ddweud hyn mae'n rhaid cydnabod bod canran o sefydliadau'n methu â chydymffurfio yn amlach yn y blynyddoedd cyntaf maent o dan ddyletswydd.
- 1.37** Yn gyffredinol mae ein harolygon yn dangos bod cyrff sydd wedi bod yn ddarostyngedig i safonau am gyfnod estynedig yn fwy tebygol o fod yn cydymffurfio — neu y mwyaf newydd y mae corff o fewn y gyfundrefn safonau, y mwyaf yw'r tebygolrwydd na fydd yn cydymffurfio gyda'r holl ofynion.
- 1.38** Mae'r graff isod yn dangos canran y dogfennau sydd ar gael yn Gymraeg fesul set o reoliadau, a gwelir dros y ddwy flynedd diwethaf, fod cyrff sydd wedi bod o dan ddyletswyddau am gyfnod mwy estynedig wedi cyrraedd trothwy uwch o gydymffurfiaeth, a bod cyrff sy'n cael eu henwi yn y rheoliadau mwyaf diweddar yn dal mewn cyfnod o newid a chynnydd — er bod y ddyletswydd mewn grym.

Dogfennau ar gael yn Gymraeg



1.39 Mae'r graff isod yn dangos y ganran o dudalennau gwe sydd ar gael yn Gymraeg, fesul set rheoliadau, dros amser. Mae'r duedd yn dangos cynnydd ar i fyny tuag at gydymffurfiaeth dros amser. Mae'n dangos bod y sefydliadau mwyaf newydd i'r drefn safonau (sef set 6 a 7) yn dal i deithio tuag at gydymffurfiaeth o dros 90% sydd wedi ei chyrraedd gan sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r safonau am gyfnod mwy estynedig (sef set 1 a 2 a 5).

Tudalennau gwefan ar gael yn Gymraeg



1.40 Mae'r data'n dangos bod y gyfundrefn safonau'n gweithio, a bod gwaith rheoleiddio'r Comisiynydd yn tracio a gyrru cynnydd ym mherfformiad sefydliadau â dyletswyddau'r Gymraeg.

1.41 Er bod cysondeb yn parhau i fod yn broblem ar draws sectorau, mae'n bosib rhagweld dyfodol agos lle bydd lefelau cydymffurfiaeth ac felly safon gwasanaethau i ddefnyddwyr yn gyson foddhaol. Mae angen sicrhau nad yw cyfraddau cydymffurfiaeth yn setlo islaw cydymffurfiaeth lawn. Dim ond cydymffurfiaeth lawn sy'n gwarantu gwasanaethau Cymraeg cytras â'r Saesneg i ddefnyddwyr y Gymraeg. **Rhaid codi'r bar.**

Cyrff sy'n ddarostyngedig i gynlluniau iaith

1.42 Oherwydd natur cynlluniau iaith, mae hi'n fwy anodd cymharu lefelau perfformiad fesul sector neu rhwng cyrff â'i gilydd gan fod ymrwymadau yn gallu bod yn wahanol o un sefydliad i'r nesaf.

1.43 Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn parhau i arolygu prif wasanaethau cyrff sy'n ddarostyngedig i gynlluniau iaith gan nad yw defnyddwyr y Gymraeg o reidrwydd yn ymwybodol o'r gwahaniaeth yn y systemau, ac os ydym am gynyddu defnydd o'r Gymraeg, mae'n bwysig bod pob corff cyhoeddus sy'n gwasanaethu Cymru'n darparu gwasanaethau o safon.

	2022/2023
Delio gyda galwad ffôn yn Gymraeg	42%
Ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg	60%
Negeseuon yn Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol	23%
Tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg	37%
Hysbysebu swyddi yn Gymraeg	0%
Dogfennau ar gael yn Gymraeg	53%
Ffurflenni ar gael yn Gymraeg	54%
Defnydd o hunaniaeth gorfforaethol yn Gymraeg	37%

1.44 Mae'r uchod yn dangos bod lefelau gwasanaethau cyrff sy'n ddarostyngedig i gynlluniau iaith yn anghyson, a hefyd bod natur yr ymrwymadau mewn rhai o'r cynlluniau wedi dyddio – er enghraifft, nid yw'r cynlluniau yn cynnwys gofynion o ran cyfryngau cymdeithasol.

1.45 Fodd bynnag, er fod darlun cymysg o ran perfformiad a lefelau cydymffurfiaeth cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith, mae datblygiadau positif mewn meysydd sydd yn effeithio ar nifer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyrff nad ydynt wedi eu datganoli.


-
- 1.46** Mae nifer o ddatblygiadau cadarnhaol wedi bod o ran y Gymraeg ar wefan GOV.UK, er enghraifft, dros y flwyddyn dan sylw. Mae'r datblygiadau yn cynnwys gwasanaethau ar-lein a thudalennau gwybodaeth dwyieithog newydd gan sefydliadau sy'n cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, Cofrestrfa Tir EF a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF. Mae rhai o'r sefydliadau sydd â'u cynnwys ar GOV.UK wedi cael mynediad uniongyrchol i'r prif ffrwd Gymraeg; sy'n golygu bod y sefydliadau hynny'n gallu ychwanegu a diweddarau eu cynnwys Cymraeg mewn modd amserol.
- 1.47** Mae'r dudalen '[Rhestr o wasanaethau Cymraeg](#)' ar [GOV.UK](#) hefyd wedi cael ei haddasu, gan grwpio'r gwasanaethau a gwybodaeth Gymraeg i gategoriâu gwahanol. Gwnaethpwyd hyn er mwyn ceisio rhoi gwell trefn ar y nifer fawr o wasanaethau a gwybodaeth Gymraeg sydd wedi eu datblygu dros amser, yn hytrach na gorfod edrych drwy restr hirfaith o ddolenni. Bydd gwaith pellach yn digwydd ar y dudalen yma er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a gwybodaeth Gymraeg ar [GOV.UK](#) mor hygyrch â phosib.
- 1.48** Fodd bynnag, mae gwasanaethau pwysig a ddarperir gan wasanaethau'r Goron neu asiantaethau nad ydynt wedi eu datganoli lle mae diffygion sylweddol yn parhau o ran y Gymraeg, a lle mae'r Comisiynydd yn pwysu ar gyrff i wella trefniadau.
- 1.49** Mae gwaith ymchwilio'r Comisiynydd wedi darganfod problemau dyrys wrth i bobl geisio sefyll prawf gyrru yn y Gymraeg ac mae hwn yn bryder wrth i bobl ifanc gael eu profiadau cyntaf efallai o dderbyn gwasanaethau gan sefydliadau cyhoeddus.
- 1.50** Bydd y Comisiynydd hefyd yn craffu dros y cyfnod nesaf ar wasanaethau all effeithio ar bobl oherwydd yr argyfwng costau byw a chwyddiant uchel. Mae nifer o wasanaethau sy'n cefnogi pobl mewn cyfnod bregus o'u bywyd yn cael eu darparu gan asiantaethau ar lefel y Deyrnas Unedig ac mae angen sicrhau bod cefnogaeth drwy'r Gymraeg yn digwydd yn rheolaidd wrth i bobl ddelio â heriau ariannol anodd.

Arolwg Siaradwyr Cymraeg

- 1.51** Mae'r Comisiynydd yn cynnal arolwg o farn siaradwyr Cymraeg o wasanaethau a'u defnydd ohonynt yn Gymraeg yn flynyddol. Cynhelir yr arolwg ar ran y Comisiynydd gan gwmni Beaufort.
- 1.52** Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Hydref 2022, gyda 403 o ymatebwyr yn cynrychioli trawstoriad o siaradwyr Cymraeg yn nhermau oedran, lleoliad daearyddol a lefelau rhuglder.

- 1.53** Rydym wedi cynnal yr arolwg siaradwyr Cymraeg dros amser, sydd yn ein galluogi i nodi os oes newid mewn tueddiadau o ran ymateb y sampl i wasanaethau Cymraeg neu eu profiad o ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrff cyhoeddus ac o fewn y gymuned.

Mae fy nghyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fy mywyd bob dydd yn:




- 1.54** Mae'r siart uchod yn dangos bod 26% o'r ymatebwyr o'r farn bod eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd yn cynyddu, a mae 48% o'r ymatebwyr yn nodi bod eu cyfleoedd yn aros yr un peth. Mae felly bron i dri chwarter o siaradwyr Cymraeg yn gweld bod cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.
- 1.55** Mae mwy o'r ymatebwyr o'r farn bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrff cyhoeddus yn cynyddu – gyda 34% o'r ymatebwyr o'r farn bod cyfleoedd yn cynyddu a dim ond 18% yn nodi bod cyfleoedd yn lleihau.
- 1.56** Mae hefyd yn galonogol i nodi bod 82% o'r sampl siaradwyr Cymraeg yn cytuno gyda'r datganiad 'fel arfer rydw i'n gallu delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg os ydw i'n dymuno gwneud hynny'.
- 1.57** Mae 72% hefyd yn cytuno gyda'r datganiad bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella.
- 1.58** Fodd bynnag, dim ond 65% o'r ymatebwyr oedd o'r farn bod ansawdd y gwasanaethau Cymraeg yr un peth â'r Saesneg. Mae'r ymateb hwn yn adlewyrchiad o ganfyddiad gwaith arolygu gwasanaethau'r Comisiynydd sy'n dangos bod triniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg yn digwydd yn gyson.
- 1.59** Mae'n bwysig felly ail ddatgan y sylw bod cyswllt rhwng yr hyder sydd gan ddefnyddwyr mewn gwasanaethau Cymraeg a'r llithriadau a diffyg cysondeb mewn ansawdd gwasanaethau Cymraeg. **Mae defnyddwyr yn sylwi ac yn nodi bod yr ansawdd yn gallu bod yn is o ran gwasanaethau Cymraeg, ac mae hyn yn debygol o gael effaith ar eu dewis i ddefnyddio gwasanaethau.**

Defnyddio gwasanaethau

1.60 Mae'r holiadur siaradwyr Cymraeg yn gofyn i ymatebwyr nodi pa iaith y mae'n well ganddynt ei defnyddio gyda chyrrff cyhoeddus wrth ddefnyddio gwasanaethau.


1.60.1 Mae'r siart isod yn dangos bod yn well gan 17% o'r siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg, gyda 58% yn nodi bod yn well ganddynt ddefnyddio'r Saesneg, a 26% yn nodi bod eu dewis yn amrywio yn ddibynnol ar y gwasanaeth:

Pa iaith sydd well gan yr atebwyr ei defnyddio gyda chyrrff cyhoeddus?



1.60.2 Yn amlwg mae'r ffigur hwn yn codi pryder, ac yn adlewyrchiad o leihad trawiadol o ran ymateb i'r cwestiwn am ddefnydd yn y tair blynedd diwethaf, ers y pandemig:

Canran ymatebwyr y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff cyhoeddus.



- 1.61** Fel mae'r graff uchod yn dangos, roedd cwmp sylweddol yn y nifer o ymatebwyr i'r arolwg oedd yn nodi ei bod yn well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod cyfnod y pandemig, a nid yw'r ffigur eto wedi adfer i'r lefelau welwyd cyn 2020. Mae disgwyl i sefydliadau ymateb i'r canlyniadau hyn a gwneud mwy i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg er mwyn gweithio tuag at gynyddu defnydd.
- 1.62** Dengys y canlyniadau fodd bynnag, bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o nodi ei bod yn well ganddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg (32%) ac mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd ble mae lefel uwch o siaradwyr Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o nodi ei bod yn well ganddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg (29%) gyda chyrff cyhoeddus.
- 1.63** Mae'n bryder fodd bynnag taw dim ond 12% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd rhwng 16 a 34 oed ymatebodd ei bod yn well ganddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrff cyhoeddus.
- 1.64** Ffactor nodweddiadol arall yw gogwydd tuag at ddefnyddio'r Gymraeg ar sail mathau o wasanaethau sydd dan ystyriaeth. Mae'r ymatebwyr yn nodi eu bod nhw yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau wyneb yn wyneb neu ar lafar yn y Gymraeg:

Wyneb yn wyneb	24%
Ysgrifenedig (e-bost, ffurflen ayb)	8%
Ffôn	20%
Darllen gwybodaeth	12%
Cyfrngau cymdeithasol	8%
Sgwrs bot	6%

- 1.65** Mae'r ymatebion hyn yn ffactor wrth ystyried y lefelau cydymffurfio cyfatebol yn y gwasanaethau hyn – yn enwedig o ran gwasanaethau ffôn. Os taw'r gwasanaethau llafar mae pobl fwyaf eu heisiau, mae'n bwysig eu bod yn gyson ar gael er mwyn ennyn hyder pellach i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 1.66** O ran y rhai sy'n nodi bod eu ffafriaeth yn amrywio, roedd 25% o'r ymatebwyr hynny (sef 26% o'r sampl gyfan) yn nodi bod pwnc a'r math o wasanaeth yn ffactor, yn enwedig o ran cymhlethdod termau ac ati sy'n eu harwain i newid iaith.
- 1.67** Mae'r ymateb hwn yn ffactor felly i'w ystyried wrth ddatblygu gwasanaethau — yn enwedig rhai ysgrifenedig, lle gall mwy o ddefnydd o Gymraeg clir neu gefnogaeth gyda thermau anghyfarwydd efallai gefnogi siaradwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy aml.

Arfer effeithiol : ysgrifennu triawd

Mae Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol wedi cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol a thimau polisi Llywodraeth Cymru ar gynllun 'ysgrifennu triawd'. Bwriad y cynllun oedd archwilio ffyrdd eraill o weithio gyda chyfieithwyr i wella defnyddioldeb cynnwys yn y ddwy iaith. Mae'r dull safonol o gyfieithu yn seiliedig ar ddeunydd yn cael ei ddatblygu a'i ddrafftio mewn un iaith (gan amlaf y Saesneg) ac yna'r deunydd yn cael ei drosglwyddo i'r cyfieithydd i'w gyfieithu. Un o anfanteision y trefniant yma yw nad yw'r cyfieithwyr bob amser yn cael mynediad at y cyd-destun neu'r arbenigwr pwnc i ofyn cwestiynau a derbyn eglurhad pellach wrth iddynt fynd ati i gyfieithu'r testun. Yn ogystal, nid yw'r deunydd a gyflwynir i'r cyfieithydd bob amser wedi'i gynllunio i fod yn glir, yn syml ac yn hawdd ei ddefnyddio.

Mae cynhyrchu cynnwys sy'n diwallu anghenion defnyddwyr mewn ffordd sy'n glir, yn gywir ac yn hawdd ei ddeall a'i ddefnyddio, yn gofyn am wybodaeth ac arbenigedd arbenigwr pwnc a dylunydd cynnwys. Mae'r dull 'ysgrifennu triawd' yn ymgais i gynnwys y Gymraeg drwy'r broses gyfan, fel bod y ddwy iaith yn cael eu trin a'u hystyried yn gyfartal. Mae'n dechreg sy'n dod â dylunydd cynnwys (neu awdur), arbenigwr pwnc (neu weithiau ymchwilydd) a chyfieithydd at ei gilydd i weithio ar ddarn o gynnwys a'i greu yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Drwy gael cyfieithydd yn yr ystafell felly, mae'n sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu hystyried yn gyfartal, a bod y testun yn gweithio cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae mwy o wybodaeth am 'ysgrifennu triawd' i'w chanfod ar wefan y [Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol](#).

- 1.68** Roedd y 12% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd gan Beaufort yn nodi taw argaeledd siaradwr Cymraeg arall oedd yn debygol o'u cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg, a bod cynnig rhagweithiol gan berson sy'n siarad Cymraeg yn newid arfer 11% arall o siaradwyr i fod yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg.
- 1.69** **Mae felly cyfleoedd a photensial yma i sefydliadau gynyddu lefelau defnydd o'r Gymraeg a symud yn nes i dargedau strategaeth Cymraeg 2050 i gynyddu'r ganran o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd o 10% i 20% erbyn 2050.**

-
- 1.70** Mae'r uchod felly yn cefnogi'r safbwynt bod modd newid arferion siaradwyr a chymell mwy o ddefnydd o'r Gymraeg — yn enwedig mewn gwasanaethau ar lafar drwy gynnis rhagweithiol gan sefydliadau — hynny yw, siarad Cymraeg yn gyntaf, a thrwy ei gwneud yn amlwg bod siaradwr neu wasanaethau Cymraeg ar gael — megis drwy ddefnydd o logo 'iaith gwaith'.

Atal bobl rhag siarad Cymraeg

- 1.71** Fel rhan o'r arolwg, holwyd cwestiwn cyffredinol i ddefnyddwyr er mwyn deall a oeddynt wedi cael profiad o gael eu hatal rhag siarad Cymraeg. Gofynnwyd i'r atebwyr:

Ydych chi wedi cael profiad o rywun yn eich stopio rhag siarad Cymraeg yn y 12 mis diwethaf?

- Ymatebodd 18% o'r sampl eu bod wedi cael profiad o rywun yn eu hatal rhag siarad Cymraeg.
- Roedd y ganran yn uwch ar gyfer pobl rhwng 16 a 34 mlwydd oed, gyda 29% o'r sampl yn nodi eu bod wedi cael profiad o rywun yn eu hatal rhag siarad Cymraeg.
- Roedd y ganran yn uwch hefyd os oeddynt yn ddynion (25%), yn dod o ardaloedd daearyddol dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg (20%) neu yn siaradwr Cymraeg rhugl (22%).

- 1.72** Wrth ymateb i'r cwestiwn, roedd cyfle i ymatebwyr ymhelaethu ar eu profiadau – a dyma rai o'r sylwadau gyflwynwyd am y byd gwaith:

“Stopiwyd fi gan mai dim ond Saesneg oedden nhw'n gallu siarad. Dylwn i allu siarad iaith fy ngwlad yn fy ngwlad fy hun. Fe wnes i barhau i siarad Cymraeg gan fod y bobl roeddwn i'n delio â nhw yn Gymry Cymraeg”.

“Roeddwn i yn y gwaith, roedden nhw'n dweud wrtha i am gadw at y Saesneg felly mae'n glir a bod pawb yn gallu deall be dwi'n ddweud, doedd o ddim wir yn fy mhoeni, nes i newid i Saesneg am weddill y shifft”

“Roedd yn rhaid i mi beidio siarad Cymraeg mewn cyfweiliad swydd oherwydd nad oedd y person yn deall Cymraeg”.

- 1.73** Fel mae'r ffigurau ac enghreifftiau uchod yn ei ddangos, mae profiad pobl o gael eu hatal rhag siarad Cymraeg yn digwydd fel rhan o fywyd. Yr effaith yw bod rhai, ond nid pawb, yn ymateb gan droi i ddefnyddio Saesneg.

-
- 1.74** Mae'r ffaith bod 18% o'r siaradwyr Cymraeg a arolygwyd yn nodi profiad o gael eu hatal rhag siarad Cymraeg o fewn y 12 mis diwethaf yn arwain rhywun i feddwl bod rhaid i ddefnyddwyr y Gymraeg fod â chryn ddyfalbarhau i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 1.75** Mae'n bwysig nodi'r profiadau hyn wrth ystyried lefelau defnydd gwasanaethau Cymraeg fel modd o ddeall pam nad yw siaradwyr Cymraeg bob amser yn dewis defnyddio eu Cymraeg. Mae profiadau negyddol o ddefnyddio'r Gymraeg yn debygol o gael effaith sylweddol ar ymddygiad bobl.
- 1.76** Mae rôl y Comisiynydd yn allweddol — i fod yn gefn i ddefnyddwyr pan fo sail dros gyflwyno cwynion am fethu defnyddio'r Gymraeg.

Yn dilyn ymchwiliad, dyfarnodd Comisiynydd y Gymraeg fod Bupa Dental Care wedi ymyrryd â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg tra roedd yn gweithio yn un o ddeintyddfeydd y cwmni.

Dyfarnodd y Comisiynydd fod Bupa wedi ymyrryd gyda'i ryddid drwy fynegi mewn e-bost, ac mewn llythyr dilynol ato, na ddylai gyfathrebu yn y Gymraeg gyda staff eraill.

Y rhesymau a roddwyd gan Bupa Dental Care dros yr ymyrraeth oedd bod angen osgoi gwallau gweinyddol a bod defnyddio'r Gymraeg yn yr achos dan sylw yn gyfystyr â thorri cytundeb swydd.

Nid oedd y Comisiynydd o'r farn bod cyfiawnhad i ymyrryd gyda'r rhyddid a oedd gan yr unigolyn yma i gyfathrebu yn Gymraeg gyda'i gydweithwyr. Yn sgil yr ymchwiliad bu i Bupa Dental Care ymrwymo i roi sicrwydd i'w staff bod modd defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac i dderbyn nad yw defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith yn arwain at wallau.

Gellir gweld adroddiad llawn yr achos [yma](#).

2. Sefydliadau i hybu defnydd

Mae hybu gwasanaethau Cymraeg yn gofyn am fwy na dim ond eu darparu; mae angen i sefydliadau amlygu gwasanaethau Cymraeg.

2.1 Mae'r Comisiynydd wedi cefnogi sefydliadau a chynghori'n gyson bod yr egwyddor hybu defnydd o'r Gymraeg yn egwyddor greiddiol wrth fynd rhagddi i gyflenwi gwasanaethau. Nodwyd pwysigrwydd:

- rhoi sicrwydd bod gwasanaeth Cymraeg ar gael;
- sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg o leiaf yr un mor hawdd eu cael â rhai Saesneg — ac yr un mor gyflym a didrafferth eu cael â'r gwasanaeth Saesneg;
- bod cychwyn y cyswllt yn Gymraeg yn ddiofyn, neu roi cynnig rhagweithiol;
- bod sicrwydd na fydd defnyddio'r Gymraeg yn rhoi defnyddwyr dan unrhyw anfantais o ran canlyniad neu gyflymder y broses; a
- sicrhau bod iaith y gwasanaeth yn hawdd ei deall.

2.2 Mae Mesur y Gymraeg yn datgan bod rhaid i sefydliadau cyhoeddus hybu eu gwasanaethau Cymraeg a hwyluso'r defnydd ohonynt. Er mwyn i'r egwyddor o hybu defnydd gael ei throï'n weithredoedd ymarferol mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud casgliad o safonau eglur yn ymwneud gyda hybu defnydd:

“Rhaid i chi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych...”

2.3 Mae'r Comisiynydd wedi egluro wrth sefydliadau sut i gynllunio gwasanaethau mewn modd y bydd pobl yn fwy tebygol o'u defnyddio. Yn ogystal â rhoi cyngor mae'r Comisiynydd wedi cynnig syniadau ymarferol ynghylch sut i fynd ati i gydymffurfio â dyletswyddau iaith statudol, a [hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg](#).


2.4 Mae'n dilyn felly y byddai gan y Comisiynydd ddiddordeb mewn monitro cynnydd ers rhannu'r cyngor yn 2020. Islaw nodir rhywfaint o ddadansoddiad o berfformiad sefydliadau fel ag yr oedd yn ystod y flwyddyn 2022-2023.

Hybu gwasanaethau Cymraeg drwy ddatganiadau cadarnhaol

- 2.5** Cynhaliwyd arolygon gwirio yn ystyried lefelau cydymffurfiaeth gyda'r safonau sy'n rhoi dyletswydd ar sefydliad i roi gwybod i ddefnyddwyr bod modd iddynt ddewis defnyddio'r Gymraeg. Ceir grŵp o safonau sy'n disgwyl i sefydliadau gynnwys datganiadau eglur ar eu dogfennaeth megis gwneud datganiadau yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, croesawu unrhyw un i lenwi ffurflen yn Gymraeg neu groesawu ymgeiswyr i wneud cais am swydd yn Gymraeg. Mae'r graffiau isod yn dangos cyfradd cydymffurfio cyrff gyda rhai o'r safonau dan sylw. Cofnodir y data fesul set rheoliadau gan gymharu hefyd rhwng 2021-2022 a 2022-2023.


Gohebiaeth

Rhaid ichi ddatgan—(a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.




Ffurflenni

Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.



Ffurflen gais am swydd

Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).



-
- 2.6** Gan ystyried canlyniadau'r tri graff uchod gwelir darlun cymysg. Wrth groesawu gohebiaeth yn Gymraeg, gwelir darlun sy'n anghyson â'r duedd gyffredinol wrth i awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, Gweinidogion Cymru (rheoliadau rhif 1) a sefydliadau cenedlaethol Cymru (rheoliadau rhif 2) ddangos tuedd ar i lawr yn 2022-2023 o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol.
- 2.7** Mae'r canlyniadau monitro ar gyfer hybu defnydd o'r Gymraeg wrth gwblhau ffurflenni hefyd yn dangos sefydliadau rheoliadau rhif 1 (sef awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru) yn llithro am yn ôl — tra bo cynnydd sylweddol gan sefydliadau rheoliadau rhif 6 (colegau addysg bellach a phrifysgolion).
- 2.8** Mae'r stori'n wahanol eto pan edrychir ar ganlyniadau monitro ffurflenni cais am swydd. Mae'r data hwn yn dangos bod sefydliadau rheoliadau rhif 1 yn cydymffurfio'n llawn yn 2022-2023. Gwelir naid o gydymffurfiaeth oedd yn llai na 20% yn 2021-2022 i gydymffurfiaeth o 100%.
- 2.9** Mae gosod datganiad ar ddeunyddiau er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg yn dasg y dylai pob sefydliad allu ei chyflawni yn lled ddi-drafferth. Mae gwneud datganiadau cadarnhaol er mwyn annog defnyddio'r Gymraeg yn ofyniad statudol na ddylid ei esgeuluso. Nid yw'r dystiolaeth fonitro uchod, ar faterion cymharol elfennol, yn dangos bod sefydliadau wedi mynd ymhell i berchnogi'r egwyddor o hybu defnydd.

Arolwg cydymffurfiaeth â safonau hybu defnydd gwasanaethau

- 2.10** Fel rhan o'i waith monitro cynhaliodd y Comisiynydd arolwg o gydymffurfiaeth 124 o sefydliadau gyda safonau hybu'r Gymraeg. Gohebwyd hefyd gyda sampl o 17 sefydliad sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg. Anfonwyd cais am wybodaeth at y sefydliadau ym mis Medi 2022. Derbyniwyd 99 o ymatebion sy'n gyfystyr â chyfradd ymateb o 70%.
- 2.11** Roedd yr arolwg hwn yn un ansoddol ac yn rhoi cyfle i sefydliadau rannu gwybodaeth gyda'r Comisiynydd am eu hymdrechion i hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 2.12** Gan ystyried yr ymatebion drwyddi draw, gellir casglu mai darparu gwasanaethau Cymraeg heb eu hyrwyddo oedd arferiad rhai ymatebwyr, tra bo cyfran arall o'r sefydliadau'n cymryd camau rhagweithiol i hybu.

- 2.13** Nododd 50 allan o'r 99 o ymatebwyr eu bod yn cynnal ymgyrchoedd er mwyn hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod lle i wneud mwy. Atebodd nifer o golegau nad oeddynt wedi ystyried pa rai o'u gwasanaethau y gallent eu hyrwyddo yn Gymraeg yn unol â gofynion y safonau. Cafwyd enghreifftiau pendant o sut roedd sefydliadau wedi mynd ati i hybu a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Dyma rai ohonynt:

Amgueddfa Cymru

Rydym newydd lansio brand newydd Amgueddfa Cymru. Mae statws ac amlygrwydd i'r Gymraeg wedi bod yn rhan greiddiol o'r broses ers y cychwyn cyntaf, ac mae hyn yn amlwg yn ein logo uniaith Gymraeg, y ffont newydd a grëwyd sy'n dathlu nodweddion unigryw'r iaith, a'r ffaith ein bod yn arddel dull lluosieithog yn ein llais brand. Mae hyn yn golygu ein bod yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio geiriau Cymraeg mewn testun Saesneg (neu ieithoedd eraill), er mwyn helpu pobl i wybod pwy ydym ni ac o ble rydym ni'n dod. Bydd ein brand newydd yn sail i gynyddu ymwybyddiaeth o Gymru a'r Gymraeg yn ein holl waith trwy Gymru a thu hwnt.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Lansiwyd ym mis Mawrth 2022 ymgyrch Gwnewch y Pethau Bychain, sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth ymhlith staff a'r cyhoedd o'r Gymraeg. Mae'n cynnig addewidion misol i staff ac aelodau'r cyhoedd gymryd rhan a gwneud rhyw gyfraniad bach, sydd gyda'i gilydd yn dod yn bethau arwyddocaol ac effeithiol. Rydym hefyd yn defnyddio ein system Gov.delivery, sy'n darparu y newyddion diweddaraf i danysgrifwyr y gwasanaeth ar feysydd penodol, megis digwyddiadau, priffyrdd, ysgolion ac ati. Rydym wedi hyrwyddo'r gwasanaeth hwn yn Gymraeg nifer o weithiau i'n siaradwyr Cymraeg, eto trwy gydweithio â sefydliadau partner.

-
- 2.14** Mae'r Comisiynydd wedi cynghori yn flaenorol ac yn gyson am yr angen i sefydliadau bwysleisio bod newid wedi digwydd yn sgil dyfodiad dyletswyddau safonau, a gweud yn siŵr bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Fel rhan o'r arolwg, cafwyd enghreifftiau o sefydliadau'n rhoi proc i ddefnyddwyr fel rhan o wasanaeth penodol:

Llywodraeth Cymru

Rydym yn gwneud y cynnig rhagweithiol yn y ffyrdd canlynol: mae pob llinell ffôn canolfan alwadau yn ateb galwadau ffon yn ddwyieithog neu yn darparu neges gyntaf ddwyieithog, gyda'r Gymraeg i'w chlywed yn gyntaf, wrth ohebu, wrth roi datganiad yn ein llofnodion e-byst yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, mewn e-byst cydnabod derbyn gohebiaeth Weinidogol sydd yn ddwyieithog yn ddiodyn gyda'r Gymraeg yn gyntaf, drwy gyfrwng y defnydd helaeth o logo iaith Gwaith yn y dderbynfa a neges ar ddesgiau'r derbynfeydd yn nodi "siaradwch Gymraeg yma". Wrth gofrestru am wasanaethau digidol Llywodraeth Cymru gofynnir am ddewis iaith, waeth beth fo iaith y dudalen gofrestru. Wrth wahodd rhanddeiliaid i gyfarfodydd yn ddwyieithog, gofynnir am ddewis iaith ar gyfer cyfrannu yn y cyfarfod hwnnw.

- 2.15** Bu sefydliadau yn onest yn eu hymatebion ac eglurodd rhai sefydliadau nad oedd eu hymdrechion i hybu defnydd o'r Gymraeg wedi llwyddo i gyrraedd y nod; er enghraifft, yn y maes gofal cymdeithasol ceisiodd un sefydliad ymgysylltu gyda defnyddwyr a'u teuluoedd i sefydlu dewis iaith, ond roedd yr ymateb gan ddefnyddwyr yn siomedig. O ganlyniad i'r ymateb a gafwyd, roedd y sefydliad wedi rhoi'r gorau i'r gwaith hyrwyddo rhagweithiol.
- 2.16** Fe wnaeth nifer fawr o gyrff gyfeirio at bolisiau oedd ganddyn nhw i ymdrechu i weithredu egwyddor 'Cymraeg Clir'.

Cyngor Castell-nedd Port Talbot:

'Rydym yn annog staff i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu Cymraeg proffesiynol/cydweithwyr Cymraeg eu hiaith i brawf-ddarllen a sicrhau bod unrhyw gynnwys Cymraeg yn gywir ac yn hawdd ei ddeall. Mae gan staff fynediad at hyfforddiant i ennill/gwella eu sgiliau iaith Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r protocolau cyfathrebu amrywiol ac yn sicrhau bod arddulliau a defnydd o ieithoedd yn briodol, er enghraifft yn y cyfryngau cymdeithasol; mae hyn weithiau'n denu beirniadaeth lle mae'n bosibl bod arddull/iaith fwy llafar yn cael ei defnyddio nad yw'n Gymraeg 'academaidd/cywir' a ddysgwyd yn yr ysgol/prifysgol, er ei bod yn briodol ac yn hawdd ei deall. Gall derbyn agwedd fwy hamddenol at y Gymraeg – fel a geir yn y defnydd o'r Saesneg – fod yn rhywbeth y gall y Comisiynydd helpu i fynd i'r afael ag ef ar sail Cymru gyfan.'

S4C

'Mae S4C wastad yn ceisio sicrhau ein bod yn defnyddio Cymraeg syml a chlr gyda'n cynulleidfaoedd. Un o'n hegwyddorion yw bod yr iaith Gymraeg yn perthyn i bawb, ac mae gennym strategaeth ar waith i fod yn gynhwysol, i ddenu mwy o wylwyr, ac i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Cyn bo hir, byddwn yn gwneud darn o waith ar 'lais S4C' — h.y. sut y gallwn ni wneud yn siŵr bod ein gwasanaeth ni'n glir ac yn hawdd i'w ddeall, ac yn trafod y Gymraeg mewn ffordd sy'n ei gwneud yn fwy agored.'

Tribiwnlysoedd Cymru

'Mae dogfennau a gynhyrchir gan Dribiwnlysoedd Addysg Cymru hefyd yn cael eu cynhyrchu mewn fformat hawdd i'w darllen, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith hygyrch i blant a phobl ifanc, sy'n cael cyflwyno hawliad neu apêl o dan reoliadau'r Tribiwnlys.

Gall iaith gyfreithiol fod yn gymhleth ar gyfer yr holl ddefnyddwyr, ond mae aelodau cyfreithiol, lleyg ac arbenigol y Tribiwnlysoedd yn brofiadol yn ymdrin ag ystod eang o unigolion yn ystod gwrandawiadau, ac yn sicrhau bod yr holl bartïon yn deall popeth.'

Asiantaeth Safonau Bwyd

'Ers sefydlu'r Uned Iaith yn 2007, mae'r tîm wedi datblygu a meithrin arddull tŷ sy'n canolbwyntio ar Gymraeg clir, iaith agos atoch a chyfieithu dealladwy sy'n cadw'r gynulleidfa darged mewn cof bob amser. Mae gennym gontract terminoleg gyda Chanolfan Bedwyr ac yn cydweithio â'r ganolfan i safoni ein termau a'u cyhoeddi ar wefan y Porth Termau. Caiff yr holl waith cyfieithu ei gyflawni yn fewnol gan ein tîm o gyfieithwyr profiadol. Caiff pob darn o waith ei wirio a chaiff pob adnodd ei brawf-ddarllen i warantu ansawdd. Gyda phrosiectau mawr, fel prosiect Bwyd a Chi, gofynnwyd cwestiynau am yr adnoddau Cymraeg mewn fforymau adborth ac ymgorfforwyd yr adborth hwnnw o hynny ymlaen (e.e. cynnwys enwau Saesneg mewn cromfachau pan fydd term anghyfarwydd yn Gymraeg). Defnyddiwn iaith agos atoch ar y cyfryngau cymdeithasol, a byddwn yn ystyried y defnydd o ti/chi mewn ymgyrchoedd gan ddibynnu ar y gynulleidfa – e.e. yr henoed/pobl ifanc/myfyrwyr/plant ysgol'.

-
- 2.17** Tra bod ymdrechion amrywiol i hybu defnydd o'r Gymraeg yn digwydd mewn rhai sefydliadau cyhoeddus mae lle i roi mwy o feddwl i ddulliau effeithiol o effeithio ar ddewisiadau iaith. Mae cynllun strategol y Comisiynydd ar gyfer y cyfnod 2022 i 2025 yn nodi blaenoriaeth glir i sicrhau bod sefydliadau'n gwneud mwy i hyrwyddo'r cyfleoedd maent yn eu darparu i ddefnyddio'r Gymraeg. Man cychwyn i lawer fyddai dilyn cyngor Comisiynydd y Gymraeg ar hybu gwasanaethau, neu o leiaf, sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r safonau sy'n disgwyl iddynt hybu defnydd o'u gwasanaethau Cymraeg.
- 2.18** Fel rhan o'r arolwg, casglwyd gwybodaeth am ddulliau cofnodi data defnydd gwasanaethau. Yn un o'i adroddiadau sicrwydd blaenorol mae'r Comisiynydd wedi cynghori y byddai casglu data meintiol yn ddefnyddiol er mwyn i sefydliadau ddeall i ba raddau mae eu hymdrechion i hybu gwasanaethau yn llwyddo. Hefyd cynghorwyd sefydliadau i osod targedau ar gyfer sicrhau cynnydd mewn defnydd.
- 2.19** Cafwyd ymatebion oedd yn darparu sampl o lefelau defnydd gwasanaethau. Dim ond cymharu canran defnydd cyfrwng y Gymraeg gyda chanran defnydd cyfrwng y Saesneg oedd rhai sefydliadau, tra bo sefydliadau eraill yn mynd rhagddi i gofnodi gwybodaeth am ddewisiadau iaith mewn ffyrdd mwy defnyddiol a dadlennol. Roedd un sefydliad yn casglu data fesul safon ac felly'n gallu cymharu a oedd defnydd uwch o rai mathau o wasanaethau Cymraeg o'i gymharu ag eraill.
- 2.20** Roedd ychydig o sefydliadau yn casglu data gan gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol. Roedd un sefydliad wedi gallu cofnodi cynnydd o 3,424 o ymweliadau gyda thudalennau gwe Cymraeg eu sefydliad mewn un maes gwasanaeth.
- 2.21** Mae'r Comisiynydd wedi darparu cyngor penodol ar hybu defnydd gan egluro wrth sefydliadau sut i gynllunio gwasanaethau mewn modd y bydd pobl yn fwy tebygol o'u defnyddio. e.e. sicrhau bod y gwasanaeth yn ymddangos yn Gymraeg yn gyntaf, neu fod defnyddwyr yn cael cynnig gwirioneddol i ddefnyddio'r Gymraeg ar ddechrau'r broses. Mae'r ddogfen yn cynnig syniadau ymarferol ynghylch sut i fynd ati i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Mae angen i sefydliadau dynnu'r llinynnau ynghyd a gweithredu mewn ffordd mwy cyfannol a phwrpasol wrth iddynt geisio gweithio tuag at gynnydd mewn defnydd. Dyma rai pethau y dylai sefydliadau fod yn eu gwneud yn unol â'r egwyddor [hybu defnydd](#).

- **Dylunio gwasanaethau** i wneud pobl yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg drwy roi dewis mwy amlwg e.e. cynnig tudalen sblash gwefan yn y Gymraeg er mwyn ateb y cyfrifoldeb i hybu gwasanaethau Cymraeg.
 - **Gwneud y Gymraeg yn ddiodyn** gan fod ymchwil yn dangos bod defnyddwyr yn dueddol o ddilyn y norm, a derbyn y dewis diodyn.
 - **Gwasanaeth Cymraeg yn awtomatig** heb fod angen i ddefnyddwyr orfod gofyn am ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai hyn gynnwys cynnig y Gymraeg yn ddiodyn mewn technoleg – heb orfod newid unrhyw osodiadau.
 - **Y Gymraeg o'r cychwyn** gan nad yw defnyddwyr yn awyddus i newid iaith unwaith maent wedi cychwyn delio gyda sefydliad mewn un iaith benodol.
 - **Gofyn am, a chofnodi, dewis iaith**, yn ofalus fel modd o sicrhau bod sefydliadau'n gallu adnabod defnyddwyr y Gymraeg yn fwy effeithiol.

- **Cymell** pobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Er mwyn i sefydliad fod yn llwyddiannus yn cymell defnyddio'r Gymraeg, mae angen **newid creiddiol i ddiwylliant y sefydliad**. Rhaid i'r newid sicrhau bod gweithlu'r sefydliad yn cynnig gwasanaeth Cymraeg yn gyson a digymell ac yn rhagweithiol.
 - **Defnyddio iaith glir** gan wneud y Gymraeg yn hawdd ei deall.
 - Cyfathrebu'n effeithiol fod y siawns o gael gwasanaeth Cymraeg da bellach yn llawer uwch nag y bu ac annog defnyddwyr i roi tro ar eu defnyddio.
 - Cynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg — rhoi'r argraff mai defnyddio gwasanaethau Cymraeg yw'r peth normal, positif, cymdeithasol-ddymunol i'w wneud, gan wneud i bobl deimlo'n dda am ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.
 - Pwysleisio pethau sy'n newydd, ac yn berthnasol i'r defnyddwyr.

- **Casglu tystiolaeth** er mwyn mesur cynnydd
 - **Sefydlu gwaelodlin** a chasglu data ar y lefel o ddefnydd cyn yr ymyriad
 - **Ymyrryd** (e.e. newid dyluniad y gwasanaeth, neu hyrwyddo'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol)
 - **Casglu data ar y lefel o ddefnydd ar ôl yr ymyriad.**

Defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol

- 2.22** Mae'n flaenoriaeth strategol gan y Comisiynydd i gynyddu cyfleoedd sydd gan bobl sydd yn gweithio o fewn cyrff cyhoeddus i ddefnyddio eu Cymraeg drwy weithredu safonau'r Gymraeg yn y maes hwn i'w llawn potensial.
- 2.23** Mae'n ddyletswydd gan bob corff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg i ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae'r safon yn datgan bod yn rhaid i fwriad y polisi arwain at hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- 2.24** Mae nifer o safonau eraill sydd hefyd yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff, megis sicrhau bod modd cael contract cyflogaeth yn Gymraeg, dogfennaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth a chyhoeddi polisiau yn y Gymraeg. Mae'r safonau hefyd yn gwarchod hawliau aelodau staff i gynnal prosesau disgyblu yn Gymraeg ac wrth ddelio â chwynion.
- 2.25** Er mwyn hwyluso cyflawniad a chynyddu lefelau defnydd o'r Gymraeg bob dydd o fewn gweinyddiaeth mewnol sefydliadau, mae pecyn gweithredu wedi ei gyhoeddi ar [wefan](#) y Comisiynydd sydd yn cyflwyno camau ymarferol all cyrff eu cymryd i gefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ac i gynllunio a mesur yn well ar gyfer dyfodol lle mae defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hwyluso.

Enghraifft o sut y gall polisiau defnydd mewnol gefnogi swyddogion i ddefnyddio'r Gymraeg

Cysylltodd tri aelod o staff sy'n gweithio i gyngor sir yn y gogledd ddwyrain â'r Comisiynydd i roi gwybod am fater allai gael ei ystyried fel ymyrraeth yn eu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Wrth gynnal sgwrs yn Gymraeg ar 'Teams' ymatebodd un aelod o staff di-Gymraeg i ddweud nad oedd mwyafrif y tîm yn siarad Cymraeg, y dylai sgysiau sy'n cael eu cynnal ar y ffrwd drafod gyffredinol gael eu cynnal mewn iaith sy'n ddealladwy i bawb, fod cynnal sgwrs Gymraeg ar y ffrwd drafod gyffredinol yn anghwrtais, ac os oes rhaid cynnal sgwrs Gymraeg y dylid gwneud hynny mewn ffrwd drafod breifat.

Cyflwynodd yr aelodau staff gŵyn i'w rheolwr llinell wnaeth ymateb i'r mater drwy atgoffa staff o bolisi'r Cyngor ar y Gymraeg yn y gweithle sy'n rhoi'r hawl ac anogaeth i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg yno. Nodwyd hefyd fod y Cyngor eisoes mewn trafodaethau gyda chwmni allanol i roi hyfforddiant ar amrediad eang o faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys 'rheoli tîm dwyieithog' a sut i hyrwyddo'r Gymraeg.


Yn dilyn ymyrraeth y Comisiynydd, datganodd Prif Weithredwr y Cyngor ei siom ynghylch yr hyn ddigwyddodd a bod y mater yn un a oedd yn cael ei ystyried o ddifri. Yn ychwanegol at yr uchod, ymrwymodd i:

- Dderbyn adroddiad ar y mater a'i gyflwyno i gyfarfod arferol y Tîm Prif Swyddogion
- Atgoffa pob aelod staff o bolisi'r Cyngor ar y Gymraeg yn y gweithle
- Adolygu prosesau recriwtio i sicrhau bod ymgeiswyr am swyddi yn deall pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle

Hunanasesiadau cydymffurfiaeth gyda safonau gweithredu

- 2.26** Dros y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd cais i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg hunanasesu ac adrodd ar eu lefelau cydymffurfiaeth gyda'r safonau gweithredu sy'n cefnogi defnydd o'r Gymraeg yn ngweinyddiaeth y cyrff.
- 2.27** Mae'r sefydliadau yn hunanasesu os ydynt yn cydymffurfio gyda sicrwydd uchel, canolig, isel neu ddim yn cydymffurfio gyda safonau penodol.
- 2.28** Yn gyffredinol mae sefydliadau yn adrodd eu bod yn cydymffurfio gyda sicrwydd uchel â'r gofynion i ddarparu deunyddiau cyflogaeth i'w staff yn Gymraeg. Mae rhai sefydliadau yn nodi cydymffurfiaeth ganolig, gan adnabod eu bod am adolygu'r drefn er mwyn sicrhau cynnig rhagweithiol:

Hunasesiad: darparu deunyddiau cyflogaeth yn Gymraeg i gyflogeion



2.29 Mae lefelau'r sefydliadau sy'n adrodd hunanasesiad bod sicrwydd uchel yn dilyn yr un patrymau â'r graff uchod wrth gydymffurfio o ran cyhoeddi polisiau mewnol yn Gymraeg, sicrhau bod modd i staff gyflwyno cwynion yn y Gymraeg a bod modd ymgymryd â phroses disgyblu mewnol yn Gymraeg. Mae'r hunanasesiadau yn cadarnhau ar y cyfan bod cydymffurfiaeth gyda'r gofynion hyn yn dda a bod cyrff wedi mabwysiadu trefniadau sy'n cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyrchu dogfennau neu os ydynt yn cwyno neu'n destun disgyblaeth.

2.30 Mae darparu meddalwedd gwirio sillafu a rhyngwynebau Cymraeg ar gyfrifiaduron staff hefyd yn cael ei asesu gyda lefelau cydymffurfiaeth uchel. Mae ambell broblem i'w hadrodd gan sefydliadau sy'n defnyddio systemau apple mac, ac mae rhai sefydliadau hefyd yn cydnabod nad ydynt yn cynnig y feddalwedd yn ddigon rhagweithiol – hynny yw, bod rhaid i staff ofyn i'w hychwanegu. Mae modd i rai cyrff felly hyrwyddo argaeledd technoleg Cymraeg drwy ystyried opsiynau rhagweithiol neu osodiadau diofyn.

2.31 Fodd bynnag, mae nifer o gyrff yn hunan adrodd bod eu mewnwyd ddim ar gael yn Gymraeg, yn groes i ofynion y safonau. Mae hyn yn arbennig o wir mewn cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau rhif 6 – sef colegau addysg bellach a phrifysgolion, ble mae 33% yn adrodd bod sicrwydd isel o ran cynnig cefnogaeth technoleg gwybodaeth yn y Gymraeg oherwydd diffygion y fewnwyd.

Polisiau defnydd mewnol o'r Gymraeg

- 2.32** Gofynnwyd i'r sampl a dderbyniodd yr holiadur hunanasesu i adrodd ar eu lefelau cydymffurfiaeth gyda'r gofyniad i ddatblygu polisi yn unol â gofyniad y safon:

Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnwyd.

- 2.33** Adroddodd 90% o'r sampl eu bod yn cydymffurfio gyda'r gofyniad gyda sicrwydd uchel.
- 2.34** O'r rhai nad oeddynt o'r farn eu bod yn cydymffurfio yn uchel, roedd dau sefydliad yn adrodd nad oedd ganddynt bolisi oherwydd eu bod yn barod yn gweinyddu yn Gymraeg yn unig.
- 2.35** Fodd bynnag, roedd yn siomedig nodi bod 7 corff yn cadarnhau nad ydynt eto wedi llunio polisi i gydymffurfio â'r safon. Bydd swyddogion y Comisiynydd yn ymateb i hyn drwy gymryd camau i sicrhau bod y sefydliadau dan sylw yn llunio polisi ac yn gwneud hynny gyda chefnogaeth y [pecyn gweithredu](#).
- 2.36** Gofynnwyd yn ogystal i dderbyn copïau o bolisiau sefydliadau ar ddefnydd o'r Gymraeg ac er mwyn deall sut roedd sefydliadau yn mynd ati i ddatblygu defnydd mewnol o'r Gymraeg.
- 2.37** Derbyniwyd 48 polisi a luniwyd gan gyrff i gwrdd â gofyniad y safon. Mae'n deg nodi bod y polisiau a luniwyd gan sefydliadau yn amrywio yn sylweddol o ran safon ymrwymadau i gynyddu defnydd neu o ran hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.
- 2.38** Mae nifer o bolisiau yn trafod yn ormodol sut mae gweithredu safonau cyflenwi gwasanaethau, ac yn fwy tebyg i ganllawiau ar weithredu'r safonau yn hytrach nag arweiniad ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 2.39** Mae hefyd dwy elfen amlwg sy'n gyson ddiffygiol ar draws polisiau – sef nad ydynt yn cynnwys elfen o ddatblygu fel sy'n ofynnol o dan y safon ac yn ail, prin yw'r rhai sy'n gosod nod polisi. Hynny yw, mae'r polisiau ar y cyfan yn weithredol, yn nodi sut mae'r sefydliad yn cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg, ond nid ydynt yn edrych ymlaen ac yn ystyried twf mewn lefelau defnydd.

2.40 Dylai'r polisiâu hefyd ystyried a chynnwys strategaethau er mwyn goresgyn rhwystrau sy'n llesteirio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Er enghraifft:

- Mae parodrwydd gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg at ddibenion gwaith yn un ffactor: pobl naill ai'n hyderus yn llafar ond yn teimlo'n saffach yn defnyddio'r Saesneg ar gyfer pethau ysgrifenedig; neu'n gallu siarad Cymraeg ond ddim wedi arfer â gwneud hynny. Dylai polisiâu sefydliadol gynnwys mesurau yn ymateb i'r sefyllfa hon.
- Mae nifer o siaradwyr Cymraeg ym mhob un o'r sefydliadau y bu i'r Comisiynydd gwrdd â hwy. Pan fo nifer digonol o siaradwyr Cymraeg, Cymraeg sy'n cael ei defnyddio. Mae bod o fewn pau, neu ddylanwad cydweithiwr sy'n gwneud ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg, yn gallu creu shifft yn iaith aelodau o staff nad oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn flaenorol. Er mwyn cefnogi defnyddio'r Gymraeg mewn rhai peuoedd penodol fe ddylai polisiâu sefydliadau gynnwys mesurau i atgyfnerthu neu gefnogi peuoedd Cymraeg o fewn y gweithle.
- Mae defnydd yn tueddu i droi i'r Saesneg os oes unrhyw un di-Gymraeg yn rhan o'r sgwrs neu'r cyfarfod. Nid oes modd cael cyfieithu ar y pryd mewn nifer o'r sgysiau / cyfarfodydd mewnol sydd dan sylw.
- Dylai polisiâu defnydd mewnol gynnwys mesurau i annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn llafar ac ar gyfer negeseuon ysgrifenedig anffurfiol a darparu cefnogaeth ar ffurf gwasanaeth mentor neu diwtoriaid lle mae angen cymorth a chefnogaeth.
- Dylai polisiâu defnydd mewnol gynnwys ymrwymiad yn cydnabod statws y Gymraeg o fewn y gweithle a dylai bod gan y sefydliad rywrai yn arwain a gosod esiampl i eraill. Yn y cyswllt hwn dylai polisi gynnwys mesurau codi ymwybyddiaeth am y polisi.
- Mae rhai sefydliadau yn gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn gweithio tuag at sefyllfa i fod â'r Gymraeg fel eu 'prif iaith weinyddol' Mewn achosion fel y rhain dylai polisiâu fod yn glir beth yw ystyr prif iaith weinyddol a diffinio hynny yn eu polisi.
- Nid yw systemau technoleg gwybodaeth a systemau adnoddau dynol neu reoli cyswllt yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol sawl sefydliad. Dylai polisiâu defnydd mewnol gynnwys nod polisi ac amserlen ar gyfer gweddnewid sefyllfaoedd fel hyn ac os nad oes modd gweithredu'n syth dylai polisiâu i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg gyflwyno mesurau dros dro.

-
- 2.41** Mae lle i gyfran uchel o sefydliadau cyhoeddus Cymru adolygu eu polisiau gan fynd rhagddi i ddadansoddi eu sefyllfa eu hunain a chynnwys mesurau datblygol yn eu polisiau defnydd mewnol. Bydd y Comisiynydd yn monitro a gweithio gyda sefydliadau er mwyn symud o sefyllfa statig i un lle mae sefydliadau'n meddu ar bolisiau datblygol.
- 2.42** Mae lle i sefydliadau adnabod nod clir i weithio tuag ato. Mae'r Comisiynydd eisiau gweld mwy o sefydliadau'n defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith gweithredu mewnol, a chynnal y sefyllfa honno lle mae eisoes yn weithredol.
- 2.43** Lle nad yw hynny'n ymarferol bosibl dylai sefydliadau osod nod clir er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Dylai sefydliadau ymchwilio i fodelau polisi sy'n gweddu i'w hamgylchiadau er enghraifft cychwyn cyflwyno'r Gymraeg fel iaith gwaith swyddogol am y tro cyntaf; gosod nod o roi dewis i'r gweithlu weithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg; datgan bod gan y Gymraeg statws swyddogol fel iaith y gweithle neu osod nod i'r Gymraeg fod yn brif iaith y sefydliad.
- 2.44** Bwriad y Comisiynydd yw gweithio'n agos gyda detholiad o sefydliadau er mwyn datblygu modelau polisi amrywiol. Bydd yn bwysig nad yw sefydliadau'n aros yn eu hunfan yn y cyfamser a dylai pob sefydliad edrych eto ar eu polisiau a diffinio nod sefydliadol addas.

3. Sgiliau a recriwtio

Er mwyn diwallu'r dyletswyddau sydd i gyflenwi gwasanaethau Cymraeg rhaid rhoi mwy o werth ar y Gymraeg fel sgil a phenodi mwy o siaradwyr Cymraeg.

- 3.1** Mae'r Comisiynydd wedi datgan yn gyson fod buddsoddi amser mewn datblygu trefniadau cadarn ar gyfer recriwtio ac asesu'r angen am sgiliau Cymraeg y gweithle yn allweddol bwysig ar gyfer llwyddo i gydymffurfio â dyletswyddau'r safonau ac i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.
- 3.2** Yn ei adroddiad sicrwydd 2021-2022 '[Y Gymraeg fel ffordd o weithio](#)' bu i'r Comisiynydd nodi'r "farn nad oes newid sylfaenol wedi digwydd wrth gynllunio a gweithredu yn y maes recriwtio...er mwyn gwella lefelau cydymffurfiaeth sefydliadau gydag ystod safonau'r Gymraeg yn gyffredinol". Gofynnodd i gyrff ystyried a oedd eu trefniadau yn ddigonol ym maes recriwtio gan nodi y byddai'n barod i agor ymchwiliadau a gorfodi newid os oedd diffygion yn parhau.
- 3.3** Mae'n allweddol bod gan sefydliadau gapasiti digonol o sgiliau Cymraeg er mwyn eu galluogi i ddarparu yn Gymraeg yn unol â'r safonau. Y prif ddylanwad ar allu sefydliadau i gael darpariaeth Gymraeg addas yw'r nifer o'u staff sydd â sgiliau Cymraeg. Mae cynyddu'r nifer o swyddogion sydd â sgiliau yn y Gymraeg felly'n allweddol er mwyn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg. Bydd cynyddu'r niferoedd yn arwain at:
- wella gwasanaethau Cymraeg a chreu cyfleoedd i ddefnyddwyr siarad Cymraeg
 - cynyddu cyfleoedd i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
 - cynyddu ymwybyddiaeth sefydliadau o faterion sy'n effeithio ar y Gymraeg o ran llunio polisi a hybu'r Gymraeg.
- 3.4** Er mwyn mynd i'r afael gyda diffyg cydymffurfiaeth mewn modd strategol, comisiynwyd gwerthusiad annibynnol o sut mae sefydliadau yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg. Roeddem am ddeall sut mae'r asesiadau hynny'n cyfrannu at eu llwyddiant i recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg a thrwy hynny i gynyddu eu capasiti i weithredu yn Gymraeg.

3.5 Cynhaliwyd yr adolygiad â sampl o 24 corff gyda thrawstoriad o gyrff sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg rhif 1, 2, 4, 5, 6 a 7. Y bwriad oedd galluogi'r Comisiynydd i ddeall pa drefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd, pa arferion sydd yn arwain at lwyddiant a beth yw'r rhwystrau. Roedd yn dymuno:

- derbyn data a thystiolaeth gadarn ynghylch sut mae'r broses recriwtio ei hun yn dylanwadu ar effeithiolrwydd sefydliadau i gynyddu capasiti'r gweithlu
- dysgu am fethodolegau ac arferion a ddefnyddir o fewn sefydliadau wrth asesu gofynion ieithyddol swydd, y camau dilynol ynghlwm â'r prosesau recriwtio a chanlyniad y prosesau recriwtio hynny
- canfod arferion llwyddiannus y gellir eu rhannu gyda sefydliadau eraill i'w mabwysiadu
- dysgu o unrhyw heriau neu rwystrau all godi drwy'r gwaith.

3.6 Cyflwynodd y cwmni adroddiad ar gyflawniad yr adolygiad sy'n:


- cyflwyno gwerthusiad annibynnol o sut mae'r ffordd y mae sefydliadau yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg yn cyfrannu at eu llwyddiant i recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg;
- cynnwys enghreifftiau o arferion llwyddiannus ac yn amlygu risgiau mewn arferion a thueddiadau a welwyd ar waith;
- rhoi ystyriaeth i ddigonolrwydd ac addasrwydd yr asesiadau a wnaed ac amlygu tueddiadau lle bo tystiolaeth eu bod yn arwain at lwyddiant;
- adnabod tueddiadau neu arferion sydd yn cael effaith andwyol ar lwyddiant y broses recriwtio.

3.7 Mae'r adroddiad i'w weld yn llawn ar wefan y Comisiynydd [yma](#). Cynhaliwyd yn ogystal seminar i drafod y gwaith a gellir ailymweld â'r seminar drwy wylïo'r recordiad [yma](#).

Canfyddiadau gwaith gwirio

3.8 Mae data arolygon swyddogion y Comisiynydd yn dangos bod cynnydd yn y canrannau o hysbysebion swyddi sydd ar gael yn Gymraeg. Ar draws y cyrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, mae 69% o hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg. Mae'r cynnydd hwn yn cyfateb i gynnydd yn y sampl hysbysebion a arolygwyd yn y flwyddyn hon – oedd hefyd yn uwch. Fodd bynnag, rhaid nodi fod 31% o'r sampl yn cael eu hysbysebu yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn ddiffyg cydymffurfiaeth gyda dyletswydd.

Canran o hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg⁴



3.9 Unwaith eto, mae'r darlun hefyd yn gymysg ac anghyson ar draws sectorau, gyda phrifysgolion a cholegau addysg bellach (rheoliadau rhif 6) a chyrff iechyd (rheoliadau rhif 7) yn perfformio yn gyson waeth na'r cyrff o sectorau eraill.

3.10 Sefydliadau rheoliadau rhif 7 oedd yn cynrychioli'r grŵp o gyrff gyda'r perfformiad gwaethaf, gyda dim ond 28% o'r hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg.

3.11 Roedd gweddill y grwpiau yn perfformio'n well ar y cyfan, gyda chanrannau yn cwmpo rhwng 85% a 89% o hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg.

3.12 Yn debyg i'r sylw a wnaed ar wasanaethau, mae lefelau uchel o drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hysbysebu swyddi a darparu deunydd cefnogol — gyda thriniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg mewn 50% o'r sampl (84% o'r sampl ar gyfer cyrff rheoliadau rhif 7). Mae hyn yn gyson gyda'r sefyllfa yn 2021-2022 lle roedd 51% o'r sampl yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol wrth hysbysebu swyddi.

4. Dim data ar gael ar gyfer 2020/2021 oherwydd ymosodiad seiber ar systemau technoleg gwybodaeth Comisiynydd y Gymraeg.

-
- 3.13** Mae cynnydd fodd bynnag wedi bod o ran cyrff sy'n cydymffurfio â'r gofyniad i hysbysu unigolyn y gallent wneud cais am swydd drwy gyfrwng y Gymraeg:

Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

- 3.14** Roedd 92% o sampl rheoliadau rhif 7 yn cydymffurfio gyda'r gofyniad hwn ac roedd cynnydd amlwg gyda chanlyniadau rheoliadau rhif 1 rhwng llynedd (62%) ac eleni (83%). Roedd yr un peth yn wir am reoliadau rhif 7 rhwng llynedd (75%) ac eleni (92%).


Pennu sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swyddi

- 3.15** Mae safonau'r Gymraeg yn gosod gofyniad bod yn rhaid i gyrff asesu'r anghenion am sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd neu wag ac mae angen eu categoreiddio fel swyddi o fewn y 4 categori isod:

- mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
- bod angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl penodi rhywun i'r swydd
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu
- nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

3.16 Mae'r graff isod yn dangos y lefelau sgiliau Cymraeg a ddynodwyd yn y sampl o hysbysebion swyddi a arolygwyd (690).

Dynodi sgiliau Cymraeg o fewn hysbysebion swyddi



3.17 Yn y sampl o hysbysebion swyddi a arolygwyd gan swyddogion y Comisiynydd, roedd 8.3% o'r swyddi gafodd eu pennu gyda'r angen am sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Roedd y rhain i gyd yn swyddi hysbysebwyd gan gyrff o set rheoliadau rhif 1 (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol) a rheoliadau rhif 2 (cyrff cenedlaethol Cymru). Os ystyrir y sectorau yma yn unig, roedd 16% o'u hysbysebion swyddi yn dynodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

3.18 Nid oedd yr un o'r hysbysebion swyddi a arolygwyd o gyrff o'r setiau rheoliadau eraill (rheoliadau rhif 5, 6 a 7) wedi dynodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

3.19 O'r holl hysbysebion swyddi a arolygwyd – doedd 10% o'r sampl ddim yn crybwyll neu'n trafod o gwbl beth oedd gofynion ieithyddol y swydd.

3.20 Roedd 45% o'r hysbysebion swydd yn crybwyll dynodiad o sgiliau Cymraeg mewn ffordd wahanol i'r hyn mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano – sef dynodi un o bedwar categori.

3.21 Felly, roedd 54% o'r hysbysebion swyddi a arolygwyd wedi methu â dynodi gofynion ieithyddol y swydd yn unol â gofynion y safon.

3.22 Mae angen i gyrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg felly ailystyried eu trefniadau ar gyfer asesu a dynodi y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swyddi cyn hysbysebu.

Gwaith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd: Asesu'r angen am sgiliau Cymraeg mewn swydd newydd a swyddi a ddaw'n wag

Cyflwynodd aelod o'r cyhoedd gŵyn nad oedd sefydliad cenedlaethol Cymraeg wedi cynnal asesiad trylwyr o'r angen am sgiliau iaith Gymraeg cyn hysbysebu a phenodi i swydd cyfarwyddwr. Roedd deiliad blaenorol y swydd yn siaradwr Cymraeg rhugl gyda chyfrifoldeb strategol am y Gymraeg. Roedd yr achwynydd o'r farn y dylai'r swydd gael ei hysbysebu gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol.

Pan fod swydd newydd yn cael ei chreu neu pan ddaw swydd yn wag, mae safonau'r Gymraeg yn creu dyletswydd ar y sefydliad i asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg a'i chategoreiddio fel swydd lle mae'r Gymraeg un yn ai hanfodol, dymunol, angen dysgu'r iaith, neu ddim yn angenrheidiol. Rhaid hefyd cadw cofnod o'r asesiad.

Fe wnaeth yr ymchwiliad ddarganfod bod y sefydliad wedi cynnal asesiad o ofynion ieithyddol y swydd cyn ei hysbysebu, gan gasglu bod y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer rhai elfennau o'r swydd. Er hynny, penderfynodd y sefydliad gategoreiddio'r swydd fel un lle roedd y Gymraeg yn 'ddymunol iawn'. Dadl y sefydliad oedd y byddai categoreiddio'r swydd fel un Cymraeg 'hanfodol' yn cyfyngu'n ormodol ar nifer yr ymgeiswyr posib.

Casglodd yr ymchwiliad fod y sefydliad wedi methu â chydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg ar y seiliau canlynol:

- Mae'r safonau'n caniatáu sefydliad i osod swydd mewn un o bedwar categori, fel y disgrifir uchod. Nid yw 'dymunol iawn' yn un o'r categorïau hynny ac felly torrodd y sefydliad safonau'r Gymraeg drwy greu categori newydd at ei ddibenion ei hun.
- Roedd asesiad o ofynion ieithyddol y swydd wedi casglu bod y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer ei chyflawni'n llwyddiannus. Er hynny, penderfynodd y sefydliad beidio â chategoreiddio'r swydd fel un Cymraeg 'hanfodol' wrth ei hysbysebu. Wrth wneud hynny, diystyriwyd yr asesiad gan ei wneud yn ddiwerth. Nid yw cynnal asesiad yn unig yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon. Mae categoreiddio swydd yn groes i ganfyddiad yr asesiad gyfystyr â pheidio a chynnal yr asesiad o gwbl.

Yn sgil yr ymchwiliad, a'r camau gorfodi osodwyd, bu i'r sefydliad dan sylw gynnal adolygiad o'i drefniadau recriwtio a diwygio ei broses a'i ffurflenni fel ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion ac i atal methiant o'r fath rhag digwydd yn y dyfodol

Asesu sgiliau yn y Gymraeg a meithrin sgiliau Cymraeg cyflogai

- 3.23** O'r sampl o sefydliadau a wnaeth ymateb i holiadur hunanasesu'r Comisiynydd, roedd 70% yn datgan eu bod yn cydymffurfio â sicrwydd uchel ar gyfer y gofyniad i asesu sgiliau Cymraeg eu staff. Mae nifer o gyrff yn cofnodi sgiliau staff yn glir ac yn adrodd yn flynyddol ar lefelau sgiliau yn eu hadroddiadau blynyddol.
- 3.24** Roedd gweddill y sampl yn nodi sicrwydd canolig — yn bennaf gan gydnabod eu bod yn ddibynnol ar system nad yw'n gorfodi staff i gofnodi eu sgiliau, neu fod system adnoddau dynol ddim yn cefnogi casglu data yn hawdd.
- 3.25** Dim ond 59% o'r sampl oedd yn asesu eu bod yn cydymffurfio gyda sicrwydd uchel ar gyfer yr angen i feithrin sgiliau eu cyflogai.
- 3.26** Roedd nifer o gyrff hefyd yn adrodd bod hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i staff, megis hyfforddiant iechyd a diogelwch neu hyfforddiant technoleg gwybodaeth yn debygol o fod yn Saesneg a bod cynnal niferoedd digon uchel i ddarparu hyfforddiant o'r fath drwy gyfrwng y Gymraeg yn anodd.

Canfyddiadau'r adolygiad annibynnol

- 3.27** Mae canfyddiadau arolygu'r Comisiynydd yn cyd-fynd i raddau helaeth â chanfyddiadau'r adolygiad annibynnol. Dyma grynhoi rhai o'r canfyddiadau hynny isod.
- 3.28** Yn gyntaf, mae'n bwysig diffinio yr hyn a olygir gan 'llwyddiant'. Dyma sut roedd y sefydliadau oedd yn rhan o'r adolygiad eu hunain yn gweld llwyddiant:
- Cynnydd yn y nifer/canran o staff â sgiliau Cymraeg;
 - Llwyddo i recriwtio pobl â'r sgiliau iaith / sgiliau Cymraeg perthnasol;
 - Llwyddo i lenwi rhai swyddi sydd â gofynion am sgiliau Cymraeg;
 - Cynnal yr un nifer/canran o staff sydd â sgiliau Cymraeg;

-
- Canran uchel o staff â sgiliau Cymraeg;
 - Cynnydd mewn staff sydd am wella eu sgiliau Cymraeg;
 - Cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i staff i wneud defnydd o'r Gymraeg.

3.29 I'r gwrthwyneb, roedd y sefydliadau yn gytûn bod diffyg llwyddiant gyfystyr â methiant i ddenu siaradwyr Cymraeg rhugl neu fethiant i ddenu siaradwyr Cymraeg i lenwi mathau penodol o swyddi.

3.30 Yn ôl y sefydliadau eu hunain hefyd, dyma oedd y prif resymau dros lwyddo:

- System categoreiddio anghenion iaith swyddi cadarn mewn lle;
- Cyfathrebu anghenion sgiliau iaith swydd yn glir;
- Cydweithio ag ysgolion a cholegau addysg uwch;
- Hysbysebu ar wefannau Cymraeg / cyfryngau cymdeithasol;
- Ymdrech fwriadus i gydymffurfio â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg;
- Ymdrech fwriadus gan y sefydliad i hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol;
- Gosod targedau.

3.31 A'r prif resymau dros ddiffyg llwyddiant:

- Diffyg hyfforddiant ymwybyddiaeth a diffyg canllawiau clir i reolwyr;
- Gwendidau wrth gyfathrebu gofynion iaith swyddi i ymgeiswyr;
- Prinder ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg / demograffi'r dalgylch;
- Heriau recriwtio ehangach y farchnad lafur / effeithiau'r pandemig;
- Sefydliad ddim yn cynnig cyflogau digon cystadleuol;
- Sefydliad mawr yn ei chael hi'n anodd gweithredu'r safonau ym mhob rhan ohono.

-
- 3.32** Gwelwyd felly gydnabyddiaeth gan sefydliadau eu hunain o'r angen i wella eu trefniadau a bod hynny yn rhan greiddiol o'r rheswm dros ddiffyg llwyddiant. Mae'n arwyddocaol nodi mai ychydig yn llai na hanner y sampl (11 o'r 24) wnaeth gofnodi gyda sicrwydd fod eu trefniadau recriwtio wedi bod yn ffordd lwyddiannus / effeithiol i benodi unigolion sy'n medru'r Gymraeg a chynyddu'r adnodd sgiliau Cymraeg o fewn eu gweithluoedd. Roedd dros hanner felly yn ystyried bod yna lle i wella a newid er mwyn llwyddo.
- 3.33** Roedd 13 o'r 24 sefydliad wedi tystio eu bod yn cadw at drefniadau'r safonau ac argymhellion y Comisiynydd fel y nodir yn ei ddogfen [gyngor ar recriwtio](#) ond ar sail dadansoddiad y cwmni ymgynghorol o'r dystiolaeth a ddarparwyd, yr awgrym yw nad ydi eu harferion recriwtio nhw yn cadw mor driw at y ddogfen honno ag y maent yn ei gredu.
- 3.34** Roedd 9 o'r 24 sefydliad wedi rhoi atebion eithaf amwys i'r cwestiwn ynghylch y graddau y maent yn cadw at drefniadau a argymhellir gan y Comisiynydd a 3 sefydliad wedi bod yn gwbl agored yn dweud nad ydynt yn cydymffurfio.
- 3.35** Y casgliad felly yw bod lle i wella ac i ailystyried cyngor y Comisiynydd drwyddi draw ar draws sefydliadau.
- 3.36** **Barn y Comisiynydd yw bod llawer iawn mwy gan sefydliadau i'w wneud i sicrhau cadernid eu trefniadau recriwtio ac y gallai gwneud newidiadau i'r trefniadau hynny a rhoi mwy o werth i'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle arwain at fwy o lwyddiant i recriwtio siaradwyr Cymraeg.**
- 3.37** Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cwmni IAITH, mae'r Comisiynydd yn awyddus i sefydliadau gymryd yr amser i adolygu eu trefniadau recriwtio eu hunain gan gymharu'r prosesau a'r gweithdrefnau gyda'r arferion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw. Mae'n awyddus bod sefydliadau yn adnabod lle mae arferion cadarnhaol eisoes a lle mae arferion a allasai effeithio'n negyddol ar lwyddiant i recriwtio siaradwyr Cymraeg.
- 3.38** Mae'r neges a'r cyngor a roddwyd i gyrff yn ei adroddiad llynedd yn parhau i sefyll ac mae'r Comisiynydd yn gofyn i sefydliadau gymryd sylw o'r gwaith ymchwil pwysig hwn a chymryd camau pendant i ystyried ac asesu eu sefyllfa bresennol a mynd i'r afael ag unrhyw arferion sydd yn effeithio ar eu llwyddiant i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae'n awyddus i weld bod sefydliadau yn cymryd y cyngor hwn o ddifri cyn y bydd yn rhoi cynllun ar waith i orfodi newid.

Camau cadarnhaol “galluogi newid” Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Yn ystod 2022 bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent baratoi cynllun gweithredu gorfodol mewn ymateb i ymchwiliad a wnaed gan y Comisiynydd oherwydd methiannau i gydymffurfio gyda safonau gwasanaethau ffôn a methiannau cysylltiedig ym meysydd recriwtio staff i gynnal gwasanaethau.

Roedd y Cyngor yn derbyn bod angen newidiadau a chynhaliwyd arolwg system gyfan mewn ymateb gan ystyried gofal cwsmer fel amcan canolog i'r holl ystyriaethau.

Wrth weithredu'r cynllun sicrhawyd o'r cychwyn bod cefnogaeth lawn gan arweinyddiaeth y sefydliad, a bod cefnogaeth i'r holl newidiadau a grybwyllwyd. Hefyd, sicrhawyd cefnogaeth gan rwydweithiau corfforaethol a rhwydwaith cymunedol Cymraeg Blaenau Gwent.

Drwy gynllunio gyda golwg ar wella gwasanaethau yn gyffredinol, ac i gefnogi gweithio yn hyblyg i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid, derbyniwyd cefnogaeth gan holl adrannau perthnasol i'r gwaith.

Ystyriwyd newidiadau o fewn yr holl adrannau i gefnogi gwella'r gwasanaeth, gan gynnwys ystyried prosesau recriwtio, asesu sgiliau, datblygu sgiliau gan ganolbwyntio ar sut i ddenu siaradwyr Cymraeg i mewn i'r sefydliad — drwy gynnal meddylfryd ‘can do’ a gweledigaeth bod modd llenwi swyddi gyda phobl â'r sgiliau cywir drwy feddwl yn ofalus a chreadigol am anghenion swyddi a drwy hysbysebu yn wybodus.

Maent wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ac wedi cael adborth da gan swyddogion oedd â dim Cymraeg cyn yr ymyrraeth hon, ac maent wedi canolbwyntio hyfforddiant ar feysydd gwaith lle gellir gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'w gofal cwsmer. Maent wedi ystyried sut y gall technoleg eu cefnogi gyda'r gwaith.

Maent hefyd wedi penderfynu dathlu llwyddiannau mawr a bychan, gan dderbyn bod llawer o waith i'w wneud maent wedi adnabod bod ychwanegu nifer o gamau bach ar draws y sefydliad yn gallu arwain at newidiadau mawr cadarnhaol i'w lefelau sgiliau Cymraeg ac yn bennaf i'w gofal cwsmer ar gyfer bob un o'i dinasyddion.

Gellir gweld trafodaeth o'r gwaith hwn [yma](#).

Atodiad 1:

Tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac amrywiol, gan gynnwys:

- monitro – cynnal arolygon profiad defnyddwyr (gwirio gwasanaethau fel gohebiaeth, ffôn, ffurflenni, dogfennau, hunaniaeth gorfforaethol, gwefannau ac ati);
- gwirio adroddiadau blynyddol, dogfennau atodol a hysbysebion swyddi;
- cyswllt â sefydliadau – argraffiadau swyddogion sy'n delio â sefydliadau wrth roi cefnogaeth i gydymffurfio, gosod safonau, a chynnal ymchwiliadau;
- Cyfarfodydd casglu tystiolaeth gyda sefydliadau.

O ran arolygon profiad defnyddwyr, dylid nodi bod y canlyniadau'n seiliedig ar wirio gwasanaethau pob sefydliad rheoliadau rhif 1 a 7, a sampl o gyrff rheoliadau rhif 2, 4, 5 a 6 yn ogystal â detholiad o sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith. Mae rhestr o'r gyrff oedd yn destun arolygon isod. Noder felly nad yw'r cymariaethau rhwng y sampl blynyddol ar gyfer rhai setiau rheoliadau yn cymharu yr un gyrff. Fodd bynnag, mae'n cynrychioli perfformiad y gyrff o fewn y set rheoliadau dros amser.

Cynhaliwyd yr arolygon gwirio gan swyddogion y Comisiynydd. Gwiriwyd y gwasanaethau dair gwaith yn ystod y flwyddyn yn y rhan fwyaf o achosion a gyda methodoleg glir yn seiliedig ar ofynion y safonau o ran yr hyn a nodir fel cydymffurfiaeth ai peidio.

Profiad defnyddwyr yw prif nod y gwaith gwirio, fodd bynnag roedd y gwirio yn ystyried gofynion y safonau yn llawn, a chyfeirir at rhain yn yr adroddiad lle'n berthnasol i nodi'r angen am well cynllunio ac ati.

Oherwydd penderfyniadau a wnaed yn sgil y pandemig nid yw arolygon wedi eu hallanoli wedi'u cynnal yn y blynyddoedd diwethaf. Golyga hyn nad oes data ar berfformiad gwasanaethau megis arwyddion a ddangosir gan gyrff, derbynfeydd a pheiriannau hunanwasanaeth wedi ei gynnwys gan nad oedd modd eu gwirio.

Arolwg Barn Siaradwyr Cymraeg:

Cynhaliwyd 403 o gyfweiliadau y flwyddyn hon gyda siaradwyr Cymraeg ym mis Hydref 2022. Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cofnodi eu bod yn rhugl. Roedd y sampl yn gynrychioliadol o siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd yng Nghymru (trwy edrych ar gyfran sy'n medru siarad Cymraeg o fewn y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru).

Rhestr o sefydliadau a arolygwyd ar gyfer canfyddiadau arolygon gwirio

Rheoliadau Rhif 1

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Casnewydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Gweinidogion Cymru

Rheoliadau Rhif 2

- Cyngor Llyfrau Cymru
- Amgueddfa Cymru
- Canolfan Mileniwm Cymru
- Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd
- Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- National Theatre Wales
- Ombwdsman Gwasanaethau
- Cyhoeddus
- S4C
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Theatr Genedlaethol Cymru

Rheoliadau Rhif 4

- Tribiwnlys Adolygiad Iechyd Meddwl Cymru
- Tribiwnlys Prisio Cymru
- Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

Rheoliadau Rhif 5

- Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Gogledd Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Heddlu Dyfed Powys
- Heddlu De Cymru

Rheoliadau Rhif 6

- Addysg Oedolion Cymru
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Coleg Cambria
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Gwent
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Sir Gâr/ Ceredigion
- Grŵp Llandrillo Menai
- Gyrfa Cymru
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Glyndŵr
- Prifysgol Met Caerdydd

Rheoliadau Rhif 7


- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Arolwg Ordnans
- Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cofrestrfa Tir EF
- Comisiwn Elusennau
- Cyngor Defnyddwyr Dŵr
- Swyddfa Brisio
- Swyddfa Cymru
- Swyddfa Eiddo Deallusol
- Swyddfa Gartref
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Ymddiriedolaeth Garbon
- Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF
- Gwasanaeth Arian a Phensiynau
- Y Coleg Plismona



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



FF: 0345 6033 221

E: post@cyg-wlc.cymru

[@comygymraeg](#) 

[@comygymraeg](#) 

[ComisiynyddyGymraeg](#) 

[Comisiynydd y Gymraeg/
Welsh Language Commissioner](#) 

comisiynyddgymraeg.cymru